# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 336

Chwefror 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# CODI CARREG GOFFA

Casglodd ffrindiau o gwmpas carreg goffa a godwyd er cof am Malcolm Edwards, Waunfawr, Aberystwyth - un a oedd yn bysgotwr arbennig - ym Mhwll Trotter's ar lan yr afon Rheidol dydd Sadwrn 15 Ionawr 2011. Er fod blwyddyn wedi mynd ers marwolaeth Malcolm mae'r cof amdano yn dal yn gynnes iawn yng nghof pysgotwyr Aberystwyth.

Roedd Malcolm yn bencampwr am ddal sewin - yn enwedig yn ei hoff Afon Rheidol a threuliwyd haf cyfan o bysgota sewin heb Malcolm erbyn hyn ac eleni roedd y nifer a ddaliwyd i lawr.

Cyfeiriodd Chas Webb, Cadeirydd Cymdeithas Bysgota Aberystwyth, at gyfraniad gwerthfawr Malcolm i'r Pwyllgor Rheoli . Gwerthfawrogwyd cyfraniad Alistair Dryburgh, Capel Bangor a Mark Sedgewick, Capel Dewi, yn codi cystal cofeb er cof am Malcolm



# POB HWYL!



Dymuniadau gorau i Gôr ABC a'u harweinydd Angharad Fychan fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Côr Cymru. Yn y llun fe'u gwelir ar ôl iddynt ennill yng Ngŵyl Fawr Aberteifi y llynedd. (Am fanylion gweler t.3) Llun: Rolant Dafis.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 336 | Chwefror 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD -** Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER -** Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MAWRTH 3** a **MAWRTH 4** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **MAWRTH 17**

**CHWEFROR 18** Nos Wener Gwaith nyrs ardal. Mrs Enid Jones Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**CHWEFROR 19** Nos Sadwrn Dangosiad o ffilm Yr Ynys (Elin Morse, 2010) ym Morlan rhwng 7:30yh - 9:30yh Trafodaeth i ddilyn. Mynediad: £4

**CHWEFROR 23** Dydd Mercher Sgwrs gan Leusa Fflur Llywelyn: Dilyn llwybrau T. Ifor Rees yn America Ladin yn Drwm LLGC am 13.00 Tocynnau (am ddim) 632 548

**CHWEFROR 25** Nos Wener Gig olaf Meic Stevens cyn gadael Cymru am Ganada yn Drwm LLGC am 7.30 Tocynnau: £10 Tocynnau 632 548

**CHWEFROR 26** Nos Sadwrn Dathlu Hwyl Ddewi gyda Bois y Fro yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.00. Cawl ac adloniant Mynediad £5 plant £1

**CHWEFROR 27** Prynhawn Sul Cyngerdd Croeso Cynnes yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch am 3.00 Mynediad am ddim.

**MAWRTH 3** Dydd Iau Refferendwm y Cynulliad

**MAWRTH 4-6** Nos Wener i nos Sul Rowndiau cynderfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**MAWRTH 8** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog ac adloniant i ddilyn gan Eleri, Trefor a'u ffrindiau yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 7.00-8.00

**MAWRTH 8** Nos Fawrth Ynyd Noson Crempog ac adloniant yn Ysgol Trefeurig am 7.30 y.h.

**MAWRTH 8** Nos Fawrth Cyfarfod PACT Trefeurig yn festri Horeb am 7.00

**MAWRTH 11** Nos Wener Cwrdd bach cystadleuol yng ngofal Mr Tegwyn Jones Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**MAWRTH 15** Nos Fawrth Sherman Cymru/Dan y Gwely yn cyflwyno Gadael yr ugeinfed ganrif (Gareth Potter) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00 Bydd sgwrs cyn y sioe am ddim

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Diwrnod trwynau coch: ymgyrch Comic Relief.

**MAWRTH 19** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn. Gŵr gwadd: Wynne Melville Jones. Enwau i Ceris Gruffudd (828017) cyn nos Sul 13 Mawrth

# EISTEDDFODAU'R URDD

**MAWRTH 16** Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Llwyn-yr-eos, Penparcau am 1.30

**MAWRTH 17** Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg o 9.15 ymlaen

**MAWRTH 17** Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Ddawns yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr am 13.00yp

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 4.00

**MAWRTH 26** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 30** Dydd Mercher Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 12.30y.p

**EBRILL 1** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.15 y b

## Diolch

Diolch i Fanc Bro Llandre am gyflwyno siec am £450 i goffrau'r Tincer - arian a godwyd yn eu noson Nadoligaidd yn mis Rhagfyr.

# Darllediadau

Dydd Sul, 23 Ionawr 2011, fel rhan o'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol, darlledwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Parchedigion Wyn a Judith Morris ar Radio Cymru. Clywyd lleisiau rhai o ddalgylch y *Tincer* yn ystod y gwasanaeth.

Bydd Dechrau canu dechrau canmol yn cael ei recordio yng Nghapel y Garn nos Fercher Mai 18. Alan Wynne Jones fydd yn arwain y canu: daw mwy o fanylion yn y Tincer nesaf.

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter  â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# Côr Cymru

Dyma'r Corau fydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Corau Ieuenctid — Nos Wener 4ydd o Fawrth @ 8:00yh
Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd
Côr Hŷn Glanaethwy
Côr y Drindod Dewi Sant
Ysgol Gerdd Ceredigion

Corau Merched — Prynhawn Dydd Sadwrn 5ed o Fawrth @ 2:00yp
Cantata, Llanelli
Côr Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach
Parti Llwchwr
Côr Ieuenctid Canol Powys, Llandrindod

Corau Meibion — Nos Sadwrn 5ed o Fawrth @ 7:30yh
Bois y Waun Ddyfal, Caerdydd
Eschoir, Llundain
Ysgol Gerdd Ceredigion

Corau Plant — Prynhawn Dydd Sul 6ed o Fawrth @ 1:30yp
Côr y Cwm, Rhondda
Côr Iau Glanaethwy
Côr Ieuenctid Môn
Ysgol Gerdd Ceredigion

Corau Cymysg — Nos Sul 6ed o Fawrth @ 7:00yh
Côr ABC, Aberystwyth
Côr CF1, Caerdydd
C ôr Rhuthun
Cywair, Castellnewydd Emlyn

Bydd enillwyr pob categori yn cystadlu yn erbyn ei gilydd nos Sul Ebrill 10fed am y teitl o Gôr Cymru. Am docynnau ffoniwch cwmni Rondo ar 029 20 223 456 neu e-bostiwch corcymru@rondomedia.co.uk.

Meddai'r cynhyrchydd Gwawr Owen o gwmni Rondo Media, "Mae penwythnos y rowndiau cynderfynol yn achlysur arbennig iawn bob tro. Mae Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn llwyfan ardderchog ar gyfer y corau, a'r awyrgylch yn drydanol.

"Mae mantais arall o fynychu'r rowndiau cynderfynol, gan y bydd y rhai sydd wedi bod yno yn cael blaenoriaeth wrth ymgeisio am docynnau i'r rownd derfynol ar 10 Ebrill."

Bydd yr enillwyr ym mhob un o'r categorïau yn cael gwobr o £1,500 ac yn mynd ymlaen i gystadlu yn erbyn ei gilydd ar gyfer teitl Côr Cymru 2011 a gwobr ychwanegol o £5,000. Bydd y rownd derfynol yn cael i gynnal ar ddydd Sul 10 Ebrill, yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac yn cael ei darlledu'n fyw ar S4C.

Dyma'r pumed tro i S4C gynnal cystadleuaeth Côr Cymru a'r enillwyr blaenorol yw Côr Plant Ysgol Gerdd Ceredigion (2009), Côr Cywair o Gastellnewydd Emlyn (2007), Serendipity o Gaerdydd (2005) ac Ysgol Gerdd Ceredigion (2003)

# Llythyrau

Annwyl Olygydd

Mi fydd Fferm Ffactor yn ôl ar sgrîn S4C y flwyddyn yma ac mae'r tîm cynhyrchu eisiau clywed gan unigolion hwyliog a brwdfrydig a hoffai gystadlu am deitl 'Fferm Ffactor 2011'.

Os yda chi yn hoffi sialens ac wrth eich boddau gyda ffermio a'r bywyd gwledig fe hoffem glywed gennych. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan ddynion a merched sydd dros 18 oed a sy'n ffermio unai'n llawn amser neu'n rhan amser.

Os hoffech chi gael y cyfle bythgofiadwy i fod yn rhan o'r gyfres gyffrous hon, a chystadlu am Isuzu Rodeo Denver newydd sbon, ewch i www.s4c.co.uk/fermffactor neu am fwy o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â ni trwy ffonio (01286) 685300. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 31 Mawrth, 2011.

Yn gywir
Tîm Fferm Ffactor
Cwmni Da
Cae Llenor
Caernarfon

**DAWNS CODI ARIAN I**
**Ambiwlans Awyr Cymru a Chanolfan Glantwymyn**

**NOS SADWRN, MAWRTH 5ED 2011**
**YNG NGWESTY'R MARINE**

**DAFYDD IWAN & HUFEN IA POETH**
**DAWNS A DISGO YN UNIG £15.00**
**CYNNIG ARBENNIG!!**
I ddechrau am 8.30yh tan hwyr yn y 'Ballroom'
**BWFFE POETH 2 GWRS £15.00**
**Bwyd, Dawns a Disgo £25.00**
Yn cael ei waenu yn yr Ystafell fwyta o 7 tan 8yh
I'w archebu o flaen llaw yn unig

**TOCYNNAU AR GAEL YNG NGWESTY'R MARINE, ABERYSTWYTH . RHIF FFÔN: 01970 612444**

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Ydy eich plentyn yn 2½ oed? Dewch â nhw i'r Cylch Meithrin yn Ysgol Rhydypennau, Bow Street! Dysgu trwy chwarae mewn awyrgylch hapus a hwyliog gyda staff profiadol.

Bore Llun, Mawrth a Mercher 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6.00 y sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Mae Ti a Fi Llandre yn cynnig cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Ni'n cwrdd bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. Galwch draw i ymuno yn yr hwyl! £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

*Addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg*

# Gwanwyn newydd i Gymru?

Wrth i'r dydd ymestyn a'r arwyddion cyntaf o wanwyn ymddangos yn y tir, dyma'r amser y byddwn ni'n edrych ymlaen at dywydd tecach a dyddiau brafiach. Ac eleni, mae cyfle i bob un ohonon ni wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n dyfodol ni i gyd.

Ar 3 Mawrth, bydd cyfle i bawb fwrw pleidlais yn y refferendwm i sicrhau rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol, fydd yn golygu bod deddfau sy'n effeithio ar Gymru'n benodol yn cael eu gwneud yng Nghymru. Yn wahanol i sawl refferendwm yn y gorffennol, does fawr o anghytuno ymysg pleidiau gwleidyddol Cymru y tro hwn. Ddechrau'r flwyddyn ymunodd cynrychiolwyr o Blaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol, y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol, ynghyd â'r Aelod Seneddol Mark Williams a'r Aelod Cynulliad Elin Jones ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl Ceredigion am y refferendwm, ac i'w hargyhoeddi o bwysigrwydd sicrhau'r pwerau newydd.

Ers hynny mae bwrlwm o weithgaredd wedi bod yn digwydd drwy'r sir i gyd. Cynhelir stondinau stryd ym mhrif drefi Ceredigion bob bore Sadwrn, sy'n gyfle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y refferendwm ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon allai fod ym meddyliau pobl.

Un broblem sy'n wynebu'r ymgyrch dros bleidlais gadarnhaol yw nad yw pobl yn meddwl bod llawer o ots mewn gwirionedd sut mae pobl yn pleidleisio - wedi'r cyfan, pe bai Cymru'n pleidleisio 'na', fyddai dim byd yn newid. Ar bapur, mae hynny'n wir, ond yn ymarferol, gallai hyd yn oed arwain yn y pen draw at wrthdroi datganoli, gydag ymyrraeth o du Llundain yn cynyddu, a gallu'r Cynulliad i sefyll a chodi llais dros Gymru yn dechrau datod.

Barn Syr Jon Shortridge, cyn brif was sifil Cymru yw nad yw Whitehall yn deall llawer am anghenion cymunedau Cymru, ac mae Syr Gus O'Donnell, Pennaeth y Gwasanaeth Sifil, yn cytuno, gan ategu bod penaethiaid Whitehall yn tueddu i anghofio am Gymru dro ar ôl tro.

Yr unig beth fedrwn ni ei wneud felly i ddiogelu ein cymunedau a'n gwlad yw sicrhau pleidlais gref dros drosglwyddo'r pwerau i'r Cynulliad. Fel y dywed arweinydd yr ymgyrch dros bleidlais Ie, Roger Lewis, dyw'r status quo ddim yn ddewis - ymlaen neu'n ôl, dyna'r unig ddewis sydd i ni.

Os allwch chi helpu, cysylltwch ag un o'r canlynol:

· Prif gyswllt y Democratiaid Rhyddfrydol: John Thornton, thornton.john.alexander@googlemail.com
· Prif gyswllt Plaid Cymru: Geraint Pugh, Geraint.Pugh@wales.gov.uk
· Prif gyswllt Ie dros Geredigion a phleidiau eraill: ieceredigion@gmail.com

Dyma ddau ddigwyddiad ar gyfer eich dyddiaduron, sy'n addo bod yn hwyliog yn ogystal â chodi arian i'r ymgyrch:

· **Dydd Sadwrn, 19 Chwefror** (11:00yb — 2:00yp) — Ffair a Bore Coffi yn y Morlan, Aberystwyth

· **Nos Sadwrn, 19 Chwefror** (7.30yh) — Swper yng Ngwesty'r Richmond, Aberystwyth; Roger Lewis (Prif Weithredwr, Undeb Rygbi Cymru a Chadeirydd yr Ymgyrch Ie dros Gymru) yw'r Gŵr Gwadd; (tocynnau'n gwerthu'n gyflym — cyntaf i'r felin; £30 am docyn oddi wrth Mererid Jones merbala@hotmail.com)




# 30 Mlynedd 'Nôl



*(O Dincer Chwefror 1981)*

Tim badminton y Borth yn ystod eu gêm yn erbyn tîm o Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Aelodau'r tîm yw (o'r chwith) Alan Akers, Aran Morris, Rheinallt Richards; rhes flaen: Una Lloyd Davies, Anna Hubbard, Pat Hovers, Llun: Bill Evans

# Uwch-Adran Bro Dafydd

Wyt ti ym mlwyddyn 7, 8, neu 9 yn Ysgol Penweddig neu Ysgol Pen-glais ac awydd mwynhau amrywiol weithgareddau'r Urdd gyda dy ffrindiau? Os felly, tyrd draw i Ysgol Penrhyn-coch am 6 o'r gloch bob nos Fawrth i fwynhau awr a hanner o wahanol weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg (yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd Pencampwriaeth Wii, sesiynau crefft a noson Karaoke!)

Os am fwy o fanylion cysyllta â'r Uwch-Adran trwy ebost ar:adranbrodafydd@yahoo.co.uk

Cadw lygad am bosteri â'r wybodaeth ddiweddaraf yn dy ysgol, neu am ragor o newyddion yn dy bapur bro.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Ionawr.**

**Gwobrau Misol**

**£25** (Rhif 114) Gwynfor Jones, Llys Iorwerth, Capel Bangor
**£15** (Rhif 109) Gwenda Edwards, Gwelfor, Tregerddan, Bow Street.
**£10** (Rhif 60) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan y Golygydd. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street os am fod yn aelod.

Gwelir rhestr o Gyfeillion y Tincer yn http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer ar dâp - Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# LLANDRE

## Treftadaeth Llandre

Rhaglen 2011
Chwefror 24 — O Dreth yr Eglwys i Drac Rasio : 400 mlynedd o fapio yng Ngheredigion — Huw Thomas
Mawrth 31 — Iolo Morganwg — Yr Athro Geraint Jenkins
Ebrill 28 — Beth sy'n newydd yn yr Archifdy Sirol? — Helen Palmer Mai 26 — Taith i wrando ar gân adar yng Nghoed Llandre — Caroline de Carle
Mehefin 30 — Ymweliad â Chanolfan Gadwraeth Fferm Denmark, Llambed
Gorffennaf — Egwyl
Awst 25 — Lansiad y Llwybrau Llên a Threftadaeth
Medi 29 — Y teulu Williams o Dy'n-y-bedw — Randall Enoch
Hydref 27 — Fy nhreftadaeth deuluol a'i dylanwad ar ein harferion amaethyddol - Rachel Rowlands
Tachwedd 24 — Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Rhagfyr — Egwyl

Cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30 yh.
Aelodau (£5 tanysgrifiad) — mynediad am ddim. £2 y cyfarfod i bawb arall.

## Ymddeoliad Hapus

Dymuniadau gorau i Gweneira Williams, Gwyndy, ar ei hymddeoliad fel athrawes yn Ysgol Pen-llwyn.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Ellen Cridge, Junis a fu yn ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Ar y teledu

Gwelwyd Gwion Llŷr, Tremedd, ar y rhaglen Wedi 7 yn ddiweddar yn dangos ei sgiliau rhydd redeg, ac yn siarad am ei ffilm fuddugol Y Llinell.

## Yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol

Fel rhan o'r wythnos, cynhaliwyd oedfa ddwyieithog yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, nos Fawrth, 25 Ionawr 2011. Trefnwyd yr oedfa gan y Parch Ddr David Williams, ficer â gofal Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. Cymerwyd rhan gan rai o aelodau'r Eglwys a Chapel y Garn, a phregethwyd gan y Parchg. Richard Lewis.

**LLEOL A LLAWN HWYL!**
Dangosiad arbennig:
**Taith wrth Afon Leri gyda disgyblion Ysgol Rhydypennau (Y Filltir Sgwâr, S4C, 1984)**
**a**
**Torri Gwynt (rhifyn 1af cyfres gomedi Dewi Pws, 1983)***
**7.45 nos Iau 17 Chwefror**
Ysgoldy Bethlehem, Llandre
Mynediad: £3 a £1.50 gostyngiadau
Ffoniwch Rhodri ar 828162 i gadw sedd
Rhai tocynnau ar y drws
* Rhybudd: cynnwys beiddgar

Mae'r Banc Bro yn gweithio er mwyn diogelu, hyrwyddo a datblygu bywyd cymunedol Cymraeg y fro. Cyflwynwyd siec o £465 i gronfa papur bro Y Tincer yn sgil y Noson Nadoligaidd lwyddiannus a gynhaliwyd adeg eira mawr mis Rhagfyr. Mae llawer mwy i'w wneud. Dewch a'ch syniadau gyda chi nos Iau. Wela i chi yn y pictiwrs


Ar Lafar
Noson i ddathlu tafodiaith Ceredigion
yng nghwmni Elen Pen-cwm a Ryland Teifi
Pris: £4
Pafiliwn Pontrhydfendigaid
Mawrth 17eg, 7.00 yh
Elw'r tocynnau tuag at Ffagl Gobaith


# GOGINAN

## Ymddeoliad

Pwb lwc i Mike Ingram, Llygad y Glyn, ar ei ymddeoliad ar ôl gweithio am flynyddoedd i A.J.Plant yng Nghlarach.

## Marwolaeth

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Gwladys Martin yn yr Alban yn 88 oed, chwaer i Elen ac Arthur Williams, Penrhiwlas. Roedd Gwladys wedi byw yn Elgin ers ei phriodas yn Ionawr 1943 i Sandy Martin a gyfarfu pan yn gweithio mewn Banc yn Llundain lle yr oedd wedi bod yn gweithio ers diwedd 1939. Cydymdeilmwn gyda'i merch Gwen ac Edward ei mab a'r teulu oll.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nia ac Aled Jones, Cysgod y Graig, ar enedigaeth mab - Iestyn Owen.

# O'R CYNULLIAD

Wrth edrych drwy'r calendr newydd, mae hi'n amlwg y bydd 2011 yn flwyddyn fawr i Geredigion a Chymru. Mae yna gyfnod cyfnod cyffrous o'n blaenau, er fe fydd yna her i'w goresgyn hefyd.

Fe fyddwch mae'n siwr yn ymwybodol o'r refferendwm dros bwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad a gynhelir ar 03 Mawrth. Fe fyddai cael pleidlais Ie yn y refferendwm yn gam a fyddai'n sicrhau bod system gyflymach o wneud penderfyniadau er lles pobl Cymru.

Ar ddechrau mis Ionawr, cefais y fraint o siarad yn lansiad lleol yr ymgyrch Ie Dros Gymru. Braf oedd gweld cynifer yno — roedd Canolfan y Morlan yn Aberystwyth yn llawn i'r ymylon — ac roedd hynny'n galonogol iawn i'w weld. Cafwyd trafodaeth ddifyr ac roedd brwdfrydedd ymysg y gynulleidfa i'w weld ac i glywed mwy am bwysigrwydd y refferendwm yn amlwg. Os ydych am helpu gyda'r ymgyrch, gallwch ddanfon e-bost at ceredigion@iedrosgymru.com.



Hefyd yn ystod mis Ionawr, fe ddaeth y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, i Aberteifi i gael gweld y gwaith peirianyddol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn ail-agor Cyffordd Tesco yn y dref. Mae'r gyffordd wedi bod ar gau ers 2003 erbyn hyn, ac wedi blynyddoedd o ymgyrchu, rwy'n edrych ymlaen at weld ceir o bob cyfeiriad yn medru defnyddio'r gyffordd.

Tra fy mod yn Aberteifi, fe ymwelais â'r Guildhall lle mae'r gardigan enfawr a wëwyd i nodi 900 mlwyddiant y dref. Mae'n amlwg y treuliwyd oriau yn gweithio ar y gardigan ac mae'n gofnod teilwng o hanes y dref.

Yn olaf, fe fynychais ginio i ddathlu diwedd apêl Sioe'r Cardis. Hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch pob un fu'n helpu trefnu digwyddiadau a chodi arian yn ystod y flwyddyn, mae'r holl waith caib a rhaw wedi talu ar ei ganfed.

Elin Jones AC

Y TINCER

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Mawrth. 2.00**
6 John Price
13 Bugail
20 Bugail
27 Richard Llwyd Jones

### Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn â David a Cynthia Binks, Trysor, Cefn-llwyd ar golli ewythr — Mr Herbert Morgan, Bow Street;

â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar golli brawd — Mr William Jones o Lanilar, ewythr hefyd i Wendy a Dai Evans, Fronfraith;

ac a theulu y ddiweddar Mrs Mary Thomas, oedd â chysylltiadau agos â'r ardal. Bu Mrs Thomas yn ffermio gyda'i brodyr am nifer o flynyddoedd yn Bronsaint a dyma'r teulu olaf i fyw yno.

# DOLAU

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Eifion Williams, Bryngwyn Bach, ar gyrraedd carreg filltir go bwysig yn ei hanes. Mae'n edrych ymlaen yn barod at y 'bus pass' a ddaw mewn deng mlynedd, ac at deligram y Frenhines mewn hanner canrif!

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty yr Hafod, Pontarfynach. Croesawodd Norma Stephens pawb yn gynnes a chafwyd pryd o fwyd blasus iawn. Noson ardderchog gyda nifer dda o aelodau yn bresennol.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Richard Davies, Troedrhiwceir a'r teulu, ar farwolaeth ei fodryb ym Mhenrhyn-coch.

Estynnwn fel ardal hefyd ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Ann Davies Delyth a Iona ar farwolaeth Mr. Martin Davies. Bu yn brifathro parchus ar sawl cenhedlaeth o blant yr ardal ac 'roedd bob amser yn gefnogol iawn i Gapeli Aber-ffrwd a Llwyn-y-groes. Pleser oedd cael ei gwmni bob amser.

Yn ddiweddar bu farw un o drigolion hynaf Aber-ffrwd, sef Linda Thompson gynt o Barn Cottage yn 99 mlwydd oed. Gan fod ei gŵr yn gweithio ym maes Coedwigaeth bu yn byw mewn nifer o wledydd ac ar ôl treulio rhai blynyddoedd yn Seland Newydd daeth i fyw i Ty'nWern gan adeiladu Barn Cottage amser ymddeol. Rhyw flwyddyn yn ôl aeth i fyw i Gartref Henoed ger Rhydychen i fod yn nes at ei mab gan fod ei hiechyd erbyn hyn wedi dirywio. Treuliodd nifer o flynyddoedd hapus iawn yn Aber-ffrwd.

### Diolch

Dymuna Hywel Ellis, Hywelfan, ddiolch i'w gymdogion a ffrindiau am y cardiau, rhoddion y galwadau ffon a hefyd i bawb a alwodd yn y siop tra yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais. Diolch am eich consyrn. Diolch hefyd i staff Ysbyty Bronglais am eu gofal.

### Digwyddiadau

Llun Mai 2ail: Trec ceffylau er cof am Clive y Gof o amgylch ardal Llanfihangel-y-Creuddyn. Mwy o fanylion gan Iola 01970 880863 neu Nerys 01970 880691.

### Sioe Capel Bangor

NEWID DYDDIAD Cynhelir Cinio y Sioe yng Ngwesty yr Hafod Pontarfynach NOS WENER MAWRTH 11.
Mae angen Ysgrifennydd i'r Adran Ddefaid a hefyd stiwardiaid ymhob adran o'r Sioe. Os oes diddordeb gennych byddai Nerys Daniel 01970 880 691 yn falch iawn o glywed oddi wrthych

# Eisteddfod yr Urdd Abertawe

Gweithiau celf Tegwyn Jones, Bow Street, yw'r llythrennau cain a atgynhyrchwyd i gofnodi ymweliad Eisteddfod yr Urdd ag Abertawe a'r Cylch yn 2011.

Dau ddehongliad sydd yma o gerddi poblogaidd ac adnabyddus sydd â chysylltiad a'r cylchoedd yna, sef Y Border Bach gan Crwys a Glas Bryan Martin Davies. Mae'r llythrennau a'r darluniau lliwgar yn ein hatgoffa o le y bardd yn ein traddodiad cyfoethog.


Trwy gyd-ddigwyddiad mae lliwiau'n cael lle amlwg yn y ddwy gerdd ac mae'r arlunydd, Tegwyn Jones yn tynnu'n sylw atynt yn fedrus.

### Glas

Cerdd sy'n sôn am lencyndod y bardd Bryan Martin Davies a anwyd ym Mrynaman yw Glas. Mae'n un o ddilyniant o gerddi a enillodd iddo goron Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1971 ac sy'n fawl i gymdeithas ei gwm enedigol. Mae'r gerdd yn disgrifio'r Sadyrnau hafaidd a dreulio'r crwt ym Mae Abertawe ymhell o gynefin di-liw yn Nyffryn Aman y 40au.

### Y Border Bach

Dyma un o delynogion mwyaf adnabyddus Crwys sy'n disgrifio'r darn o ardd ei dad, y crydd yng Nghraig-cefn-parc. Yn ei ddydd roedd Crwys yn un o feirdd mwyaf poblogaidd Cymru. Yn Archdderwydd ac enillydd y Goron dair gwaith ysbrydolwyd gan ei bentref enedigol, y Graig, ei gartref, cynefin a'r werin bobl. Mae ei gerddi'n boblogaidd o hyd, yn eu plith Dysgub y Dail, Melin Trefin a'r Border Bach. Gwnaed y gerdd hon yn fwy adnabyddus fyth gan Jac a Wil,







Parti'r Wenallt ac yn ddiweddar Bryn Terfel a Rhys Meirion yn ei chanu.

Gellir archebu y lluniau am £50 yr un neu £80 mewn ffrâm oddi wrth Gareth Richards, 761 Heol Clydach, Ynystawe, Abertawe, SA6 5BA. Ffôn: 01792 846977 (sieciau'n daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Abertawe 2011).

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

ytincer@googlemail.com

# Y BORTH

### Uno dwy eglwys

Ar 1 Ionawr 2011, unwyd eglwys y Gerlan, y Borth, ag eglwys y Garn. Croesawyd cyn-aelodau Gerlan wrth iddynt ymuno â chynulleidfa'r Garn.

### Gwellhad

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs. Vicky Howells, Tyrol House, sydd wedi bod yn anhwylus yn Ysbyty Brong-lais yn ddiweddar.

### Cymdeithas Gymraeg y Borth

Pan ddaeth aelodau`r Gymdeithas ynghyd ar gyfer cyfarfod mis Ionawr y Parchg W.J. Edwards, Bow Street, oedd y gŵr gwadd ac yn ei ddull dihafal ei hun aeth ati i hel atgofion am rai o`r cymeriadau hynny yr oedd wedi dod i gysylltiad â hwy, yn y cylch eisteddfodol yn bennaf, dros y blynyddoedd. Cafwyd orig eithriadol o ddiddorol a difyr yn ei gwmni ac unwaith eto yr oedd pawb yn rhyfeddu at ehangder ei brofiadau a`i gysylltiadau fel at ei gof eithriadol. Yn ddiddorol hefyd yr oedd gan bron bawb oedd yn bresennol eu hatgofion eu hunain am nifer o`r cymeriadau dan sylw. Ar derfyn y sgwrs diolchodd Llywydd y Gymdeithas, Mrs Mair Lewis, i W J am noson hynod ddifyr ac yna cafwyd cyfle uwch ben paned o de i drafod rhai o`r cymeriadau ymhellach cyn mynd ati i drafod dyfodol y Gymdeithas yn wyneb y ffaith bod addoli yn y Gerlan wedi dod i ben. Y penderfyniad unfrydol oedd y byddai`r Gymdeithas yn parhau mewn cartref newydd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Grandma a Dad-cu (Diane a Ieuan, Meirion) ar enedigaeth Alanah Anwen Violet Parker yn Georgia, Unol Daleithiau'r Amerig -ail blentyn i Sara a Jeremi, a chwaer newydd sbon i Harri. Mae Diane a Ieuan wedi hedfan draw i rhoi help llaw i'r teulu bach.





Dyma lun o ddrama stori Nadolig Eglwys Sant Mathew y Borth a berfformiwyd, o'r diwedd, gan aelodau'r Ysgol Sul. Oherwydd y tywydd ofnadwy, bu'n rhaid gohirio'r perfformiad tan y 9fed o Ionawr. Roedd y plant yn fendigedig a chrewyd naws y Nadolig ganddynt er gwaetha popeth. Pedair oed oedd oedran y plentyn ieuengaf ac roedd yr hyna'n dair ar ddeg. Joy Cook (eu hathrawes ysgol Sul wych) a drefnodd y perfformiad a oedd yn cynnwys stori'r geni yn ogystal â darlleniadau a chanu carolau. Hoffai Joy ddiolch i'r rhieni a oedd yn gymaint o help iddi, ac hefyd i Leasa, Jood ac Amanda am bob cefnogaeth.

## Dysgwr y mis

**Beth yw eich enw**? Rona Dalton
**Faint yw eich oed?** Bron yn hannerc cant (54 mlynedd yn iau na fy mam-gu, sydd yn fyw ac yn iach iawn yn byw ger Llwydlo).
**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg**? Llawer o flynyddoedd! Efallai mod i'n dysgu'n araf!
**Ble ydych chi'n dysgu Cymraeg?** Yn y Friendship gyda ein athro gwych,Ioan Guile. Mae'n ddosbarth hapus iawn, ac mae rhwy wyth ohonom yn cwrdd bob prynhawn dydd Mawrth.
**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol**? Rydw i'n dod yn wreiddiol o Abergorlech (ger Llandeilo), yna symudodd y teulu i Bontarfynach,wedyn, yn drist iawn anfonodd fy Mam fi i ysgol Sant Padarn, lle roedd popeth yn cael ei ddysgu drwy'r Saesneg.
**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Symudodd y teulu eto pan o'n i'n wyth, y tro hwn i Loegr, a phan ges i gyfle i symud nôl i fy Mamwlad, ro'n i'n teimlo'n gryf y dylsen i ddechrau dysgu'r iaith.
**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Gyda ffrindiau sy'n dysgu bob dydd Gwener dros baned- coffi a chloncl!Pob croeso i unrhyw un ymuno â ni rhwng hanner awr wedi un a thri o'r gloch yn Pebbles (871690).



### Artist Chwefror-Sarah Pugh, Y Friendship.

**Pam byw yn y Borth?** Ganwyd fi yn y Rhyl. Yn 1966 pan yn 19 oed penderfynais ddod i Goleg y Llyfrgellwyr yn Aberystwyth. Un diwrnod fe ddes o'r coleg i'r Borth ac yn syth cefais y teimlad mod i wedi dod adref. Syrthiais mewn cariad â'r lle a'r bobl- yn enwedig un, Meic fy ngŵr! Roeddwn yn aros ym Mhantyfedwen, un o neuaddau'r coleg ar y pryd.

**Sut fyddech chi'n disgrifio'ch lluniau?** Mae fy ngwaith wedi ei selio ar y tirwedd a'r traeth o amgylch fy nghartref. Olew, acrylic a phastel yw'r cyfryngau, ac mae fy arddull yn amrywio o'r ffigyrol i 'collages' swreal. Hoffwn feddwl fod gonestrwydd a hiwmor ynddynt ac o edrych yn fanwl mae yna negeseuon cudd ynddynt. Rhyw fath o bererindod yw pob darlun.

**Hyfforddiant.** Pan yn 45 oed penderfynais wneud ail radd yn Aber, mewn Celf a Hanes. Bu gweithio gyda Roy Marsden a Scott Nesbitt R.A. yn ddylanwad pwysig. Gan mai llyfrau yn hytrach na lluniau oedd yn llanw fy nghartre, roedd rhaid i mi ddysgu fy hun i raddau helaeth.

**Dylanwadau.**
Y rhai cynnar oedd Paul Klee a Turner, yna Picasso, Dali a Magritte oedd yn fy niddori. Hefyd Dorothea Tanning. Mae gwaith David Jones ac Eric Gill hefyd yn rhoi pleser mawr. Ac ers rhai blynyddoedd bellach mae Eve Smith a minnau wedi cydweithio'n gyson ac yn sylwi ar waith ein gilydd.

**Beth yw'ch hoff lun o'ch gwaith?** Mae'n debyg taw an 'Broc Môr' yw hwnw oherwydd mae ynddo'r un elfen sy'n gyson yn fy ngwaith- y môr-p'un ai'n dymhestlog, fel llyn, yn heulog neu'n machlud. Rwy'n dwli am froc môr a holl drugareddau'r traeth.

**Pwy ydych chi'n edmygu a) fel person b) fel artist?** Yr artist yw Barbara Hepworth am ei dygnwch a'i dewrder i lwyddo fel cerflunydd. Roedd y pris yn uchel iddi ond i gyrraedd y brig does dim lle i gyfaddawdu. Y person yw Frida Kahlo. Eto am ddewrder i orchfygu'r holl brofiadau ofnadwy yn ei bywyd.



# PENRHYN-COCH

## Suliau Mawrth

**Horeb**
Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php
**6** 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
**13** 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
**20** 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
**27** 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

## Salem

**20** Mawrth 1000
Y Parch J.E. Wynne Davies

## Taflenni amser

Yn ogystal â'r taflenni a gynhwyswyd yn y Tincer fis Ionawr mae gan Mid Wales Motors wasanaeth arall (510) yn teithio yn syth o Benrhyn-coch i'r dref trwy Comins-coch a Waunfawr. Mae pedwar bws y dydd yn gadael P-coch ( a chyrraedd Gorsaf Aberystwyth) am 06.13 (06.28), 06.50 (07.07), 07.10 (07.27) a 07.30 (07.47) ac yn gadael Gorsaf Aberystwyth (a chyrraedd Penrhyn-coch) am 18.00 (18.17), 18.15 (18.32), 18.30 (18.47). 19.55 (20.12).

## Cymdeithas y Penrhyn

Nos Fercher, 19 Ionawr, ein gŵr gwadd yng Nghymdeithas y Penrhyn oedd Dr Geraint Evans, Tal-y-bont. Bu Geraint yn darlithio am flynyddoedd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr (a ddaeth wedi hynny yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth). Bellach mae wedi ymddeol ac ar ôl ymddeol roedd yn chwilio am weithgaredd i fynd â'i fryd. Doedd o ddim yn ffansïo golff na garddio na physgota, ond fe benderfynodd droi ei law at ysgrifennu. Ers blynyddoedd lawer bu'n ddarllenydd brwd ar nofelau ditectif o bob math, a theimlai yr hoffai geisio ysgrifennu un, yn enwedig gan fod deunydd o'r fath yn eithaf prin yn y Gymraeg.



Yn ei sgwrs fe roddodd inni fraslun o ddatblygiad y nofel dditectif yn Saesneg, o ddyddiau Wilkie Collins hyd at Agatha Christie ac ymlaen at heddiw, ac fe soniodd am waith arloesol gwŷr fel E Morgan Humphreys a John Ellis Williams yn Gymraeg. Roedd wedi dod â sawl enghraifft o nofelau o wahanol gyfnodau a difyr oedd gweld y llyfrau hyn ochr yn ochr. Yna aeth ati i sôn sut yr oedd o wedi mynd ati i lunio ei nofel gyntaf. Gyda nofel dditectif mae'n rhaid wrth gynllunio manwl, a chofio os bydd rhywun yn newid rhywbeth mewn un man y gall hynny effeithio ar ddigwyddiad mewn rhan arall o'r nofel. Hanes datrys llofruddiaeth myfyrwraig mewn tre brifysgol nid annhebyg i Aberystwyth a geir yn Y Llwybr, ei nofel gyntaf, a gyhoeddwyd yn 2009, ac yn ei ail nofel, Llafnau, mae ffermwr yn cael ei lofruddio pan fo yna fwriad i godi fferm wynt yn yr ardal. Felly mae cefndiroedd y ddwy nofel yn rhai y mae'r awdur yn gyfarwydd â hwynt, sydd yn gymorth mawr rhag cymryd camau gwag.

Fe gafwyd rhes o gwestiynau ar ddiwedd y sgwrs, a oedd yn arwydd o'r mwynhad a'r pleser a gafodd y gynulleidfa wrth wrando ar y siaradwr. Sgwrs ddifyr iawn am bwnc a oedd yn amlwg at ddant y gwrandawyr.

Cyngerdd i godi arian i **Gronfa Tirion Lewis** gyda Chôr Meibion Aberystwyth ac artistiaid lleol yn Neuadd y Penrhyn
**Nos Wener Ebrill 15 am 7.00.**
**Arweinydd**: Elen Pen-cwm
**Llywydd**: Y Parchg Peter M. Thomas
Trefnir gan Horeb

**RHAGHYSBYSIAD**
Te Hufen a Mefus yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch.
**Dydd Sadwrn 2il Gorffennaf**
**3-5 y.p.**

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Dana a Karime, Caerdydd, ar enedigaeth merch fach sef Leila Katie. Wyres i Yvonne a Jack Thomas, Nantseilo a gor-wyres i Howell Evans, 15 Y Ddôl Fach.

## I Mona

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i ti.
Ar ben blwydd arbennig yn dy hanes di.
Gobeithio y cei ddiwrnod o ddathlu,
A chacen fawr a chanhwyllau i chwythu.
Hynny yng nghwmni dy ffrindiau a'th deulu
Mona pen blwydd hapus iawn i ti
A bydded i ti dderbyn bendithion lu.
M.J.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Frank Allsopp a'r teulu, 31 Ger-y-llan ar golli ei briod June a fu yn dioddef anhwylder ers blynyddoedd lawer;

ag Anthony Moyes, 13 Caemawr ar golli ei briod Margaret Moyes mor sydyn;

â chysylltiadau a theulu'r diweddar Mary Thomas, Fronsaint gynt. Un o blant adnabyddus yr ardal. Bydd yna golled fawr ar ei hôl;

â theulu a chysylltiadau'r ddiweddar Dorothy Jones, Felin Person, Llanbadarn gynt;

â Ceredig a Margaret Evans, Glanaber a'r teulu oll ar farwolaeth James Evans, Dorridge , eu mab ifancaf ac yntau ond yn 34 oed. Bu farw yn Ysbyty Heartlands, Birmingham, yn dilyn cyfnod hir o salwch. Mae James yn gadael ei annwyl briod, Lindsay. Hoffai'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am y geiriau caredig yn ystod y cyfnod anodd hyn.

â Ruth Morgan a'r teulu, Caer Villa a theulu Cwrt Villa ar golli Herbert Morgan. Un arall o blant y Penrhyn, yn gymeriad mor hoffus a llawn brwdfrydedd bob amser. Yn hoff o'i ardd a hen hanesion a hefyd hen bethau, ac yn storïwr penigamp. Un a allech dreulio oriau yn ei gwmni a chael eich difyrru ganddo.

â Llio Adams a'r teulu, Glyn Helyg, ar farwolaeth chwaer ieunengaf Llio - Ffion Haf Hughes, yn Waunfawr, Caernarfon ac â Iwan, Nerys a Iestyn, Garn Wen ar farwolaeth nain Iwan yn Wrecsam.

## Canmoliaeth

Yng nghanol holl ddryswch yr hen fyd yma mor falch ydym ni ym Mhenrhyn-coch a'r ardal o'n pobl ifanc ni.

Llongyfarchwn Rhian Haf Williams, 2 Glanstewi am y gwaith gwych mae yn wneud ar y cyfryngau fel y gwelwyd yn ddiweddar fel un o gynhyrchwyr y rhaglen 'Y Fenai' a welwyd ar S4C diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Da iawn ti Rhian.

Hefyd gwelwn yn aml ddau o'n bechgyn ifanc fel gohebwyr ar S4C sef Cemlyn Davies, Glanceulan a Gwyddno Dafydd, Rhandir. Mae gennym hefyd yma, actorion, athletwyr, cantorion, pêl-droedwyr ayyb. Daliwch ati i roi Penrhyn-coch a Chymru yn wir ar y map. Pob lwc i bob un ohonoch i'r dyfodol eto.

## Clwb Cwl Penrhyn-coch

Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yng Nglwb Cwl Penrhyn-coch, yn cael llawer o hwyl a sbri ar ôl ysgol. Rydym ni wedi mwynhau gweithgareddau yn cynnwys chwarae gyda parasiwt, gwneud cardiau Dydd Santes Dwynwen, chwarae ar y Wii, coginio, creu bwydwyr adar, chwarae anniben, creu lanternau Tseiniaidd, rasio ceir wedi eu gwneud allan o sbwriel, paentio a llawer mwy.

Cynhaliwyd disgo ar Ionawr 21ain, cafodd y plant (a'r oedolion!) lawer o hwyl gyda'r gêmau a phaentio wynebau. Roedd hi'n braf gweld Nicola, y cyn arweinydd, yna hefyd. Os ydych am ymuno gyda ni yn y Clwb Cwl, cysylltwch â Delyth neu Katy ar 07972 315 392 neu clwbcwl@googlemail.com .



## Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Mona Edwards, Hafod, sydd yn dathlu ei phen blwydd yn 80 ar 19eg o Chwefror.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Cynhaliwyd cinio blynyddol y gangen ar nos Iau 13eg o Ionawr yn 'Gannetts' yn Aberystwyth. Yr oedd pawb yn falch o gael cwrdd eto ar ôl i rai cyfarfodydd gael eu gohirio oherwydd y tywydd garw a fu.

Cafwyd noson wych, ar ôl cael bwyd blasus dros ben gyda Judith Morris yn traddodi'r Fendith cyn cychwyn bwyta aed ymlaen gyda'r noson yng nghwmni ein gwraig wadd, Beti Griffiths, Llanilar, sydd bob amser yn llawn hwyl a brwdfrydedd. Bu yn sôn am addunedau sydd ynghlwm â'r flwyddyn newydd. Sôn am ei hamser yn brifathrawes Ysgol Llanilar a hefyd fe fu yn darllen barddoniaeth oedd yn hoff ohono. Yna fe gafwyd cwis am Gymru wedi ei baratoi gan ein Llywydd, Glenys Morgan, i ddiweddu'r noson. Roedd yna griw da o aelodau wedi troi allan i fwynhau'r noson. Diolchwyd i bawb am noson gofiadwy. Aeth pawb tua thre wedi mwynhau yn fawr iawn.

## Diolch

Dymuna Ruth, Paul, Richard a'r teulu, Caer Villa, hefyd yr holl deulu ym Mhenrhyn-coch ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth mewn ymweliad a galwadau ffôn, cardiau a rhoddion blodau; hefyd rhoddion er cof am Herbert (Court Villa gynt) tuag Ambilans Awyr Cymru.

## Pen blwydd hapus

Dymuna aelodau Horeb a'i chyfeillion eraill ddymuno pen blwydd hapus iawn i Miss Megan Thomas, Ty'n gelli, Trefeurig gynt - Cartref Tregerddan bellach fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 ar Fawrth 3ydd. Wrth i'r *Tincer* fynd i'r wasg mae Miss Thomas yn Ysbyty Bron-glais - anfonwn ein cofion cynnes iddi.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lowri Evans, merch Non a Colin Evans, Refail Fach ar ei dyweddiad â Tom Guy, mab Iwan a Lyn Guy, Caerdydd.

## Mr Eddie Evans Gwawrfryn, Maes Seilo

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Eddie Evans, Gwawrfryn, Maes Seilo, priod annwyl Connie, tad cariadus Tina a Neil, tad yng nghyfraith Gareth, tad-cu Chris, Sami a Tarran, a brawd Joe a'r diweddar Jack. Bu farw Eddie yn dawel yn ysbyty Bron-glais ar ddydd Sadwrn, 8fed Ionawr a chynhaliwyd ei angladd y dydd Sadwrn canlynol ar y 15fed o Ionawr yng nghapel Horeb. Bu'r gwasanaeth o dan ofal y Parchedigion Judith Morris a W J Edwards. Cymerwyd rhan yn yr oedfa hefyd gan y Parchedig Ifan Mason Davies ac fe dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Parchedig Peter Thomas am ei absenoldeb.



Robert Evans, Pontseilo, yn derbyn tlysau oddi wrth Dr John Fish ar ran Cymdeithas Pysgota Aberystwyth am ddal sewin cyntaf y tymor (2010) o'r Afon Rheidol.




Brodor o Ffair-rhos oedd Eddie. Wedi iddo adael ysgol bu'n gweithio ar ffermydd yr ardal mewn gwahanol fannau tan yn 19 mlwydd oed. Yna ymunodd â'r fyddin ac wedi treulio ychydig amser yn yr Amwythig a'r Almaen fe'i hanfonwyd i Korea am flwyddyn a hanner.

Wedi iddo ddychwelyd o Korea bu'n gweithio gyda chwmni gwerthu glo cyn cael ei gyflogi gan 'Primrose Garage', Aberystwyth. Tra'n gweithio yno cyfarfu â Connie ac fe'u priodwyd yn 1959. Gwnaethant eu cartref ym Maes Seilo gan fagu dau o blant, Tina a Neil.

Bu Eddie wedyn yn gweithio ar y gronfa ddŵr yn Nant-y-moch ac yn dilyn hynny, am ryw ugain mlynedd, fel porthor yn Ngholeg y Llyfrgellwyr, Llanbadarn.

Wedi ymddeol, cychwynnodd ei fusnes ei hun, sef 'Eddie's Tacsis' a chael mwynhad arbennig wrth gludo pobl i wahanol fannau gan wneud sawl cymwynas yn sgil hynny. Cynyddodd y busnes ac erbyn yr wythdegau bu'n rhedeg rhyw chwe tacsi a olygai cryn tipyn o waith trefnu a chynnal a chadw. Roedd Eddie wrth ei fodd yn trin ceir ac er ei fod hefyd yn hoff o fotor beics, y car oedd yn mynd a'i ddileit pennaf.

Achlysur pwysig i Eddie a Connie, ac i'r teulu'n gyfan oedd dathlu eu priodas aur yn 2009 a chawsant ddathliad hapus iawn yn y Clwb Pêl-Droed i nodi'r garreg filltir hon.

Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf dechreuodd iechyd Eddie waelu a bu'n dioddef o glefyd y galon. Ychydig cyn ei farw aed ag ef i'r ysbyty ym Mron-glais heb fawr o nerth yn ei gorff, ac yna yn dawel yn ei gwsg ar fore'r 8fed o Ionawr, daeth ei daith ddaearol i ben.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Connie, Tina, Gareth a Neil, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar am un a oedd mor annwyl yn eu golwg.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan, Penrhyn-coch

Ar nos Wener 28ain Ionawr, bu'r gwragedd yn dathlu eu cinio blynyddol Santes Dwynwen yn Llety Ceiro, yng nghwmni'r gŵr a'r wraig wadd sef y Parchedig a Mrs Ronald Williams, Pen-y-garn. Noson ddifyr tu hwnt gyda'r Parchedig yn ein diddanu gyda'i storïau digri. I gloi'r noson cawsom bosau i'w datrys gan Mrs Edwina Davies.

Ar nos Lun 7fed Chwefror, bu Mrs Rose Neville o Ben-bontrhydybeddau (yn wreiddiol o Rydychen) yn dangos ei gwaith llaw. Ar ôl ymddeol dysgodd y crefftau hyn sy'n cynnwys arlunio, brodwaith, clytwaith a 'Pyrography' i enwi ond ychydig o'i diddordebau ac yn amlwg yn ddynes amryddawn, 'roedd yr eitemau a ddaeth i'w arddangos yn wledd i'r llygaid. Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf pan fyddwn yn gwahodd ei gŵr Mr Tom Neville i ymuno â ni ac yntau mor ddawnus â'i wraig gyda'i waith llaw.

Trefnwyd Cwis (Missing Link) llwyddiannus yn ddiweddar gan un o'r aelodau, yr elw tuag at Urdd y Gwragedd. Hoffai ddiolch i bawb a ymunodd yn yr hwyl, cafwyd ymateb da, a'r enillydd oedd Marisse o'r Ro Fawr ( South Marine Terrace), Aberystwyth. Ceir gweld yr atebion cywir yn ffenestr Siop Penrhyn-coch neu yn Neuadd yr Eglwys.

**CYNGERDD CROESO CYNNES EGLWYS SANT IOAN, PENRHYN-COCH**

Dyma wahoddiad i chi i'r Cyngerdd Croeso Cynnes i ddathlu'r system wresogi newydd sydd bellach wedi ei osod yn yr eglwys. Cynhelir y cyngerdd, yn rhad ac am ddim, i ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y prosiect o godi arian dros y blynyddoedd diwethaf. Ymunwch â ni am 3 o'r gloch ar brynhawn Sul y 27ain o fis Chwefror am wledd o adloniant cymysg lleol, ac fe deimlwch y croeso cynnes wrth gamu drwy ddrws yr Eglwys.

## parhad .... PENRHYN-COCH

### Mrs Morfydd Morris
### 6 Maes Seilo

Ar ddydd Sul, 9fed Ionawr, amddifadwyd capel Horeb o'i haelod hynaf, ac un o'r ffyddlonaf, sef y chwaer Morfydd Morris, gwraig y diweddar Barchedig Arwyn Phillips Morris a mam dyner Gareth.

Hanai Morfydd o Gaerfyddin ac yno, tra'n gweithio ar y fferm adre', y cyfarfu â'i darpar ŵr a oedd ar y pryd yn fyfyriwr ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg y Presbyteriaid Caerfyrddin. Priodwyd y ddau yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin ar y 12fed Gorffennaf 1949 ac yn ystod y blynyddoedd dilynol bu Arwyn a Morfydd yn gweinidogaethu yn Llwyndafydd a Cheinewydd; Hebron a Moreia, Pencader; Tremansel, Abertawe a Horeb, Penrhyn-coch. Yn ystod eu cyfnod yn Llwyndafydd a Cheinewydd y ganwyd mab annwyl iddynt, Gareth.

Symudodd y teulu i Benrhyn-coch yn 1959 ond ymhen ychydig o flynyddoedd yn 1965 daeth tristwch mawr i'w rhan pan bu farw Arwyn yn ddisymwth.

Wedi'r ergyd lem hon fe symudodd Morfydd a Gareth i Maes Seilo a bu Morfydd yn gweithio fel glanhäwraig yng Ngogerddan a neuaddau'r myfyrwyr ym Mhenbryn. Roedd hi'n uchel iawn ei pharch ac yn cyflawni ei gwaith yn drwyadl.

Roedd Morfydd wrth ei bodd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn yng nghwmni ei chwaer Nancy i stiwardio ac fe'i dyrchafwyd i fod yn arolygydd a oedd yn sicr yn adlewyrchiad o'i phersonoliaeth cwbl ddibynadwy ac ymroddgar.

Ar hyd y blynyddoedd bu Morfydd yn gefnogol iawn i holl weithgareddau'r pentref: y carnifal, yr eisteddfod, Merched y Wawr, Cymdeithas y Penrhyn, yr Ysgol Feithrin a'r Eglwys. Roedd hi hefyd yn wyneb cyfarwydd yng nghyfarfodydd cinio Age Concern yn y dref. Roedd hi'n arbennig o ffyddlon i'r oedfaon yn Horeb ac fe brofodd ei gweinidog a'i chyn-weinidog o'i theyrngarwch a'i chefnogaeth gyson a oedd yn adlewyrchu ei ffydd gadarn.

Ergyd i Morfydd oedd colli Nancy yn y flwyddyn 1999 ac yna yn 2009 profodd siom arall pan gollodd ei nai Robert a fu farw yn Ffrainc.

Achlysur hapus i Morfydd oedd dathlu ei phen-blwydd yn 90 yn 2008 pan baratowyd te arbennig yn y festri wedi'r oedfa yn Horeb gyda chacen arbennig wedi ei gwneud gan Mrs Meryl Thomas. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno bu Horeb ar bererindod i eglwys Llwyndafydd, sef gofalaeth cyntaf Arwyn a Morfydd , ac ar ddiwedd yr oedfa cyflwynwyd cwpan a soser Capel Llwyndafydd iddi i gofio am ei chyfnod yno gydag Arwyn.

Roedd Morfydd yn meddu ar gymeriad annibynol iawn ac fe lwyddodd i gadw ei hannibyniaeth tan yn weddol ddiweddar. Bu'n werthfawrogol o bob cymorth a dderbyniodd gan ei ffrindiau a'i chymdogion.

Yn ddi-os, byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr iawn: yn Horeb, ar y bws yn mynd i'r dref, yn yr eisteddfod ac ar wibdaith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn. Ond er ein tristwch o'i cholli diolchwn am fuddugoliaeth y bedd gwag ac am addewid Crist o fywyd tragwyddol i bawb sydd yn credu ynddo. Yn sicr roedd Morfydd wedi gafael yn dynn yn yr addewidion hynny gydol ei hoes.

Cynhaliwyd ei harwyl ar ddydd Mawrth, 25ain Ionawr, yng nghapel Horeb ac yna yn yr amlosgfa yn Nhreforys. Traddodwyd teyrnged i Morfydd yn y capel gan ei gweinidog, y Parchedig Judith Morris ac yn yr amlosgfa gan ei chyn-weinidog, y Parchedig Peter Thomas. Rhoddwyd cynhorthwy yn y capel gan y Parchedig Wyn Morris ac yn yr amlosgfa gan y Parchedig Carys Awen Jones. Yr archgludwyr oedd Robert Dobson, Ceris Gruffudd, William Howells ac Eirian Reynolds. Dosbarthwyd y taflenni gan Mervyn Hughes a Richard Wyn Davies. Mrs Mair Evans fu'n gwasanaethu wrth yr organ.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gareth a'r teulu cyfan yn eu galar a'u profedigaeth o golli un oedd mor annwyl yn ein golwg.



Mrs Morris gyda'r gwpan o Lwyndafydd

## PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

Ni ellir cofio erioed o'r blaen, gofnodi tri o farwolaethau y pentref , yn yr un rhifyn o'r papur bro, a chredwch chwi, nid yw'r dasg wedi bod yn rhwydd.

### Mrs Doris Maiorana Tegfan

Tristawyd y pentref unwaith eto, am y newydd ar yr 8fed o Ionawr, am farwolaeth Mrs Doris Maiorana, Tegfan, Dolypandy, priod y diweddar Toni. Aethpwyd â hi i'r ysbyty ar yr ail ar bymtheg o Ragfyr, bore angladd y ddiweddar Miss Gwen Davies Panteg, y ddwy chwaer hon wedi byw ar draws y ffordd i'w gilydd ar hyd y blynyddoedd.

Gwraig siriol a charedig iawn oedd Doris, ei thŷ bach twt bob amser fel pin mewn papur. Bu yn selog iawn i Gapel Pen-llwyn drwy ei hoes, ac anodd iawn yw derbyn, na welwn y wên hoffus yna, byth mwy. 'Roedd wedi cyrraedd yr oedran têg o 93 mlwydd oed, ac wedi gweithio yn Siop Woolworths Aberystwyth nes ei hymddeoliad.

Cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd yng Nghapel Gorffwys Daniels Aberystwyth, o dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies. 'Roedd y capel bach yn orlawn gan berthnasau, cymdogion a ffrindiau, wedi dod ynghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Yng nghapel Pen-llwyn ar y 23ain Ionawr, yn ôl yr arferiad, cawsom emyn coffa amdani, a ddarllenwyd gan Miss Ann Vaughan. Hefyd, teyrnged hyfryd iawn i Doris , gan Mrs Heulwen Lewis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Maldwyn Davies, Goginan a Dylan.

"Yr Arglwydd a roddodd a'r Arglwydd a gymerodd ymaith. Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd"

### Miss Mair Eluned Davies, 7 Dolypandy

Pan ddaeth y newydd am Mair Davies, eto o Dolypandy, ar Ionawr 21ain, tristawyd y pentref bach, gan mai hon oedd y drydedd chwaer a gollwyd mewn rhai wythnosau o'u gilydd. Roedd Mair yn 89 mlwydd oed ac wedi byw yn yr un bwthyn bach erioed. Yr oedd yn chwaer i Irwin, Glyndwr, Gareth, a'r diweddar Elizabeth, Thomas, Gwladys, Ifan a Trevor.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

Roedd yn fregys ei hiechyd ers amser maith, ond cafodd y gofal gorau bosib gan ei brawd Glyndwr a oedd yn byw efo hi. Dynes dawel ac annwyl, wedi mynychu yn selog Eglwys y Plwyf trwy ei hoes, tra y gallodd. Roedd ganddi ffrindiau da yn ei chymdogion, â estynnodd iddi bob cymorth yn ddyddiol.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol cyhoeddus ar Ddydd Sadwrn 29ain Ionawr, dan ofal y Parchg Andrew Herrick, ficer Eglwys Santes Anne Penparcau, gyda chymorth Heather Evans (Arweinyddes Gweddi) a'r Parchg Ifan Mason Davies a Mrs Eirwen Hughes wrth yr organ. Daeth tyrfa ynghyd ar ddiwrnod oer ofnadwy, er cof amdani.

Tynnwyd ein sylw at adnodau Sant Paul at y Thesaloniaid 1. Pennod 4 adnodau 11 a 12, sy'n tanlinellu mewn ffordd bywyd Miss Mair Davies, fel y dywedodd y Ficer yn ei deyrnged.

"I roi eich bryd ar fyw yn dawel, a dilyn eich gorchwylion eich hunain, a gweithio â'ch dwylo eich hunain, fel y gorchmynasom ichwi. Felly byddwch yn ymddwyn yn weddaidd yng ngolwg y rhai sydd y tu allan, ac ni fydd angen dim arnoch."

Hedd , perffaith Hedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Glyndwr, Irwin a Gareth.

## Mr T Martin Davies, Maencrannog

Syfrdanwyd ardal eang o glywed am farwolaeth ein hannwyl Mr Davies. Ni fu yn hwylus iawn ers tro, ac yn yr ysbyty ers cyn y Nadolig. Ein gobaith oedd, am ryw ryfedd wyrth, iddo droi y cornel a dechrau cryfhau unwaith eto pan ddêlo'r gwanwyn, ei hoff dymor . Ond nid hyn oedd ewyllys Duw, mae ein colled yma yn enfawr ac mae hiraeth mawr ar ei ôl.

Brodor o Bontgarreg oedd Mr Davies, bob amser â lle cynnes yn ei galon am ei fro enedigol. Cawsom storïau difyr yn aml, am ei ffrindiau au anturiaethau yn ystod cyfnod ei ysgol leol ac Ysgol Ramadeg Aberteifi.

Wedi gadael yr ysgol, ymunodd â'r llynges ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Nid rhyfedd mo hyn, gan fod ei dad a llawer o'i gyndeidiau yn forwyr a chapteniaid llongau. Teithiodd i lawer rhan o'r byd, i Sri Lanka, India a Malta ond i enwi rhai.

Wedi gadael y llynges, aeth i goleg Hyfforddi Caerleon i fod yn athro, ac athro da ydoedd hefyd, yn gallu dal dychymyg plant ac yn medru annog a chymell pawb i roi o'i orau.

Treuliodd 55 mlynedd yn byw ym Mhen-llwyn, ac yn brifathro yr ysgol leol am 32 o'r rheiny. Ymdaflodd ei hun i holl waith y pentref — trysorydd y Sioe , yn aelod o bwyllgor y Neuadd, Ysgrifennydd y capel, Blaenor ac Athro Ysgol Sul. Enillodd ef a'i annwyl briod y Fedal Gee rai flynyddoedd yn ôl.

Roedd yn bleser ac yn fraint o fod yn ei ddosbarth; hynny pan oedd rhai ohonom ddim ar ddyletswydd o fod yn dysgu'r plant. Cofir am y cwisiau Ysgol Sul yn y pum degau hwyr, pan y byddai yn paratoi y bobl ifanc ar eu cyfer. Cymerai y gwaith hwn hefyd, o ddifrif, ac roedd gorfoledd mawr os enillai ei dîm.

Meddai ar lais swynol, ac yn aelod o gôr Aberystwyth. Roedd hefyd yn aelod o Gymdeithas y Gwenynwyr. Carai fod allan yn yr awyr iach, gan dreulio oriau yn gweithio yn yr ardd. Gwnâi'n sicr fod ei ddisgyblion yn gwybod enwau'r blodau gwyllt a dyfai yn y cloddiau.

Roedd Mr Davies yn ŵr ddiymhongar iawn, tawel a diffws. Er cymaint ei weithgaredd, ni fynnai glod na chanmoliaeth, a bob amser mor ddiolchgar am bopeth. Bu yn arwain cyngherddau lawer, ac yn storïwr heb ei ail. Er efallai yn berson eithaf swil, gallai siarad yn gyhoeddus gyda graen safonol.

Wrth gwrs, roedd ganddo ffydd gadarn, a chariad Crist yn sylfaen ei holl fywyd. Astudiai ei Feibl yn reolaidd, a chredai mewn nerth gweddi. Cafodd gysur hyd yn oed yn yr ysbyty mewn emynau ac adnodau.

Ie diwrnod du yn ein hanes oedd Ionawr 24ain, pan ddaeth diwedd bywyd ein hannwyl "Mr Martin". Cynhaliwyd ei angladd Ddydd Sadwrn canlynol yng nghapel Pen-llwyn, a oedd mor agos at ei galon, pryd y daeth tyrfa enfawr ynghyd, o berthnasau, cyfeillion, bentrefwyr cyn ddisgyblion, a chyd athrawon y gorffennol, er coffa amdano. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ei gyn-weinidog y Parchg Morris Pugh Morris Rhuthun, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Gordon Macdonald, Ifan Mason Davies,

John Tudno Williams a Wyn Rh. Morris. Mrs Heulwen Lewis oedd wrth yr organ. Derbyniwyd ymddiheiriadau oddi wrth y Parchedigion Griffith Jones, Elwyn Pryse a J Wynne Davies.

Drannoeth i'r angladd fe gafwyd yn y gwasanaeth boreol, emyn coffa amdano, yn ôl ein harfer, a lediwyd gan Mrs Sian Spink. Cafwyd teyrnged haeddiannol dros ben, gan Mrs Heulwen Lewis, ei gyd flaenores ers blynyddoedd lawer. Roedd pawb a oedd yn bresennol o dan deimlad, a mentrwn ddweud nid oedd un llygad sych yn y festri y bore hwnnw.

Diolch am bob dylanwad a gafodd ar bob un ohonom, pan oeddem yn ifanc.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Anne Davies, ei annwyl briod, a Delyth ag Iona ei ferched hoff, ynghyd â'r holl berthnasau a chysylltiadau eraill.

Gweddïwn amdanynt yn eu hiraeth, a boed y degfed adnod ym mhennod 41 o Lyfr Eseia, yn gysur iddynt.

" Paid ag ofni, yr wyf i gyda thi; paid â dychryn, myfi yw dy Dduw. Cryfhaf di a'th nerthu, cynhaliaf di â'm llaw orchfygol."

## Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Mr Richard Hogger, Plasmelindwr, ar ei ymddeoliad yn ddiweddar.
Yr un dymuniadau da i Mrs Joe Kennaugh, Elderdale, hithau hefyd wedi ymddeol yn ddiweddar.
Mae'r ddau dŷ uchod islaw Tanffordd. Beth fyddai y teimlad tybed, i enwi'r pump neu chwe tŷ sydd yma yn Pentre Isa!!

## Pêl-droed

Pob dymuniad da i Amy Dryburgh, Maesmelindwr, a Lowri Walker Bangor Villa, sydd wedi derbyn llythyr yn eu gwahodd i ymarfer pêl-droed gyda Sgwad Merched Cenedlaethol Cymru, yng Nghroesoswallt. Pob hwyl i'r ddwy.

Hefyd mae scowt wedi bod ar hyd lle o Gaerdydd yn gwylio Sion Dryburgh yn chwarae pêl-droed. Hwyl fawr iddo yntau yn ogystal.

## Pen blwydd

Dymuniadau gorau'r fro, i Mr Jim Lewis, Llysalaw ( Exchange Stores gynt) ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 ar y 9fed o Chwefror.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Hoffai Cyngor Cymuned Melindwr dynnu sylw unrhyw un sydd eisiau gwneud apêl ariannol fod rhaid i'r ceisiadau fod yn nwylo y clerc, Meinir Evans, 22 Heol Isfoel, Llanrhystud. SY23 5BJ erbyn Mawrth y cyntaf os ydynt eisiau cael eu hystyried eleni. ( Rhaid cynnwys mantolen gyda'r cais)

## Eglwys Dewi Sant

Ar ddechrau mis Rhagfyr 2010, ni chynhaliwyd y noson goffi ac adloniant o achos y tywydd. Os digwydd i chi brynu tocyn/tocynnau ar gyfer y noson honno, mi ellir defnyddio hwy ar gyfer Nos Fawrth Ynyd, 8 Mawrth 2011.

## Gwellhad

Ar ran aelodau a chyfeillion yr Eglwys, hoffwn ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs Gwladys Jones, Abercwmdolau, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Glyndwr Davies, 7 Dol-y-Pandy ar farwolaeth ei chwaer, Mair yn ddiweddar.

# BOW STREET

## Suliau Mawrth

**Y Garn**
**10 a 5**
Gweler http://www.capelygarn.org/
**6** Bugail
**13** Beti Griffiths
**20** Bugail
**27** J. Elwyn Jenkins

**Noddfa**
**6** Uno yn y Garn am 10.00
**13** Oedfa am 2.00. Gweinidog.
**20** Oedfa am 10.00. Mr Raymond Davies.
**27** Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Peter a Sonia Mendel, Bryncastell, ar enedigaeth Moritz yn ystod yr haf. Mae'n siwr bod Felix wrth ei fodd gyda'r brawd bach.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Cyfarfu ein Cangen nos Lun 10fed o Ionawr yn Neuadd Rhydypennau. Croesawyd ni gan Shân Hayward a ddarllenodd lythyr oddi wrth ein Llywydd - Beryl Hughes, Pantyperan - yn dymuno cael ei rhyddhau o'r swydd o fod yn Llywydd oherwydd ei iechyd, felly bydd Sian ein His-lywydd yn cario mlaen fel Llywydd am weddill y tymor. Buom yn trafod busnes am ychydig, yna noson gartrefol oedd heno.

Cawsom amser hynod ddifyr gan Gwenda Edwards (Brenda yn darllen yr hanes yn absenoldeb Gwenda), Beryl Hughes, Dolau, a Brenda Jones. Bu'r tair yn Oberammergau yn gweld Pasiant y Croeshoeliad ar amserau gwahanol. Gwenda yn 1970, Beryl yn 1990 a Brenda yn 2010. Yn ôl y dair roedd yn brofiad anhygoel ac yn emosiynol iawn, wir roeddym yn teimlo'r emosiwn pan yn gwrando ar yr hanes. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan Shân.

Paratowyd y baned gan Bet Hughes a Mary Thomas ac enillwyd y raffl gan Joyce Bowen.

## Diolch

Dymuna Ruth, Paul, Richard a'r teulu, Caer Villa, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth, yn arbennig eu teulu, ffrindiau a chymdogion mewn galwad bersonol, ffôn, cardiau a rhoddion blodau. Hefyd rhoddion er cof am Herbert tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Meinir a Bryn Roberts, Bryn Meillion, ar farwolaeth mam Meinir yn Wrecsam ar 9 Chwefror.

## Ar wella

Gobeithio bod Mrs Maud Phillips yn gwell ar ôl cael damwain fach yn ddiweddar.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Miss Rhiannon Roberts, 2 Maes Ceiro, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

## Yn nain eto

Llongyfarchiadau i Mrs Ray Evans, 39 Maes Ceiro, ar ddod yn Nain unwaith eto wrth i Tomos Cai Elias gael ei eni yn Llanrhystud.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Rhydian a Megan Phillips, Cleve, De Awstralia, ar enedigaeth mab arall a'r enw - Bryn Alun; brawd bach i Aled Jac ar Ionawr 7fed ŵyr bach arall i Alun a Louisa Phillips, Maes Ceiro a gor-wyr i Maud Phillips, Tregerddan.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Bryn Lloyd, Nerys ac Aled, 7 Maes Ceiro, ar farwolaeth Vera Lloyd yn Ysbyty Bron-glais ar Chwefror 5 ar ôl cystudd hir. Bu Vera am flynyddoedd yn darparu copïau sain o'r Tincer a nifer o bapurau bro eraill Ceredigion ar gyfer rhai sydd a'u golwg yn pallu



Aelod hynaf Sefydliad y Merched, Rhydypennau, Mrs Eirlys Owen (ar y dde) a Mrs Glenwen Thomas, Llywydd y Gangen, yn torri'r gacen i ddathlu 90fed pen blwydd y Sefydliad yn Rhydypennau.



Aelodau Sefydliad y Merched, Rhydypennau, a'u gwestai yn dathlu pen blwydd y gangen yn 90 oed ar yr 21ain o Ionawr 2011.

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2011. Yr ysgrifennydd yw:

Mary Jones, Lleifior, 27 Glan Rheidol, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG 01970 624408


TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

ytincer@googlemail.com

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd .
Genedigaeth .Angladdau .
Blodau i Eglwysi a
Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

## COLOFN MRS JONES

Ar ddechrau'r gaeaf, dechreuais wneud peth gwirion, gweithred o ofal sydd wedi troi a'm brathu o ddifrif. Ac eto, y mae'n weithred y mae llawer yn ei gwneud, yr wyf yn siwr fod llawer o'm darllenwyr, hwythau, yn ei gwneud. Yn wir, o ystyried fod bron pob siop fwyd yn paratoi y cyfarpar anghenrhediol y mae'n amlwg fod y gwneud nid yn unig yn beth cyffredin ond yn magu yr un ymateb yn y rhai yr ydym yn gofalu amdanynt, sef rhaib a blacmel.

Am beth ydw i yn sôn, meddech chi? Wel, bwydo adar gwyllt. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn pwyso arnom wneud yn wyneb diflaniad adar bychain y gerddi ac fe rydym ninnau yn fwy na pharod i ufuddhau gan ein bod yn gofidio drostynt yn yr oer, yn enwedig pan yw'n eira.Ac fe'm brathwyd i am i mi bendefynu bwydo cymaint o wahanol fathau o adar ac a fedrwn.

Ers blynyddoedd fe fyddai Meirion a mi yn bwydo'r adar mewn dau le yn yr ardd, ar dop y sied i'r adar mwyaf megis y brain ac mewn bwyty adar pwrpasol ar gyfer y rhai llai.Yr hyn sydd yn wahanol, eleni, yw fy mod i wedi penderfynu bod yn fwy gwyddonol a bwydo yn addas, hynny yw, darparu cnau a hadau a phryfetach, yn ogystal a gweddillion cig. Y mae hyn yn golygu fod gennyf fwy o adar yn dod i'r ardd, y dydd o'r blaen, gwelais ddwy golomen, sawl drudwy a jac do, un bioden, un robin, a sawl titw ac adar yr eira a dau dderyn du i gyd yn heidio o gwmpas y caffi yr un pryd. Fe ddaw jybinc yno yn rheolaidd, hefyd, a sawl bronfraith ond ofnaf fod y dryw bach oeddd gennyf y llynedd wedi marw, yn sicr y mae wedi diflannu o'm gardd i. Y brath, wrth gwrs, yw fod gwneud hyn olll yn costio mewn arian ac amser ond ni fyddai gennyf ots am hynny petawn yn cael gwerthfawrogiad. Nid wyf yn disgwyl iddynt ffeilio heibio fi a moesymgrymu ond fe hoffwn gael ychydig o ystyriaeth, serch hynny, ar yr adegau prin pan yw'r caffi yn wag a minnau yn methu ei lenwi am fy mod wedi anghofio bwyd.

Pan ddigwydd hynny - a dim ond rhyw ddwywaith y mae wedi digwydd - fe dybiech fod y byd ar ben a phobl ar basio i'm cyfeillion pluog. Ffyrdd rhai ohonynt yw leinio ar y ffens fel rhesiad o Oliver Twists yn agor eu pigau led y pen ond y mae gan rai ffyrdd mwy sneclyd o arddangos anghymeradwyaeth. Tric y jac do yw dyrnu y bwrdd adar yn ddidrugaredd fel petai hynny yn mynd i ryddhau rhyw friwsionyn cudd, gwagsymera a chwilio yn y gwair o'i gwmpas fel petai' gwendid yn eu lladd a wna'r colomennod a chrawcian o'r coed yn nghefn yr ardd wna'r drudwyaid fel petaent yn cyhoeddi fy niffyg gofal i'r pentref.

Gan y robin goch a chan y titw y mae'r ymateb rhyfeddaf. Daw robin i mewn i'r conservatory yn dalog a chlwydo ar sil y ffernestr gan fflachio ei fynwes arnaf. Ac y mae'n ddigon dof fel y gallaf roi ychydig friwsion i lawr yn ei ymyl. Ac y mae'n ddigon cwrtais i beidio a rhuthro allan ar ol ei bryd, caf eistedd yno gydag ef ,ac y mae ef a Buster yn anwybyddu ei gilydd yn llwyr.Tric y titw yw cymryd y tŷ gwydr drosodd. Pan euthum i ar fy ngwyliau, roeddwn yn ymwybodol iawn y byddai arnaf angen tynnu'r planhigion tomatos pan ddeuwn yn fy ôl...ond pan ddeuais yn fy ôl ,sylweddolais i mi adael drws y tŷ gwydr ar agor a bod gennyf, bellach, denantiaid - y titw. Nid dyma eu cartref, wrth gwrs, ond dyma yn sicr ddigon y ganolfan cadw'n heini yn enwedig ar dywydd drwg a bum innau yn ddigon diog a digon meddal fy nghalon i adael y drws ar agor a'r planhigion tomatos i fyny ar eu cyfer - wrth gwrs, pan ddaw hi'n amser tomatos, fe wel y titws newid, fe fydd planhigion newydd a bydd y drws wedi ei gau ond am rwan, fe gant chwarae yno yn ffri. Ond pan yw bwyd y bwrdd yn brin, nid oes dim neidio o un gangen i'r llall ac ymdrechu i gerdded i fyny'r ffenestri a'r holl driciau eraill y byddaf yn eu mwynhau, o na, yn hytrrach, pyramid o adar a welaf a phob un yn syllu i'm cyfeiriad fel casgliad o Svengalis ...

Ond yr wyf yn ffodus mewn un peth, o leiaf, nid oes yr un wiwer lwyd wedi dechrau ymuino yn y wledd,y mae'r adar yn bleser. Niwsans fyddai hi yn enwedig petai hi a'i thylwyth yn gosod eu tŷ yn y lofft neu sied yr ardd. Ac yr wyf yn ffodus iawn fod yr adar yn ymddiried digon ynof i ddod i'm gardd a bwydo yno. Hir y pery.

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 27 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y cadeirydd y Cyng. Owain Morgan. Prif waith y noson oedd penderfynu ar y praesept am y flwyddyn 2011-12 a dosbarthu rhoddion i'r gymuned.

Sail Treth y Cyngor am eleni yw £827.13. Penderfynwyd ar braesept o £14,700, sy'n cyfateb i £17.77 am annedd Band D.

Mewn ymateb i nifer o apeliadau am roddion o bell ac agos penderfynwyd fel a ganlyn: Ffrindiau Cartref Tregerddan £100, Maes Chwarae Rhydypennau £400, Pwyllgor Henoed £200, Tincer £300, Mynwent y Garn £150, Mynwent Noddfa £130, Clwb Hoci Bow Street £100, Cylch Meithrin Rhydypennau £100, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £100, Neuadd Rhydypennau £1000, CAB £100, Ffederasiwn CffI Ceredigion £50, Ffagl Gobaith £50, Papur Sain Ceredigion £50.

Roedd y Cyng. Paul Hinge yn bresennol a chyflwynodd ei adroddiad misol. Dywedodd bod cais am agor gorsaf drên yn Bow Street wedi ei chyflwyno i'r Cynulliad a bod llawer o gefnogaeth o'r tu cefn i'r syniad. Mae nifer o garafannau yn amlhau yn lle lleihau tu cefn i Wern Deg ac mae'r swyddog gorfodaeth newydd - sef Huw Davies yn delio a'r mater ar y funud, a bod trafodaethau cyfreithiol yn mynd ymlaen. A dal i rygnu ymlaen y mae saga uwchraddio rhan o Maesafallen er bod gobaith gweld pethau yn dod i fwcwl yn y flwyddyn hon.

Llwyddodd y Cyng Hinge i berswadio'r Cyngor Sir i gyflenwi llwyth o raean/halen ar bedwar safle pe digwydd i'r tywydd waethygu eto. Y safleoedd yw: Maesceiro, Maesafallen, Bryncastell a Thregerddan. Mae'r ffordd drwy'r ystâd at Gartref Tregerddan yn peri trafferth i drafnidiaeth a phobl yn ystod rhew ac eira, a rhaid ei chadw ar agor ar gyfer y gwasanaethau hanfodol. Diolchwyd i'r Cyng Hinge am ei adroddiad.

Daeth pecynnau sylweddol i law parthed Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022. Mae nifer o safleoedd wedi ei nodi yn lleol ar gyfer codi tai, ac eto mae problem y garthffosiaeth yn parhau. Cyfnod o ymgynghori yw hwn eto, ac yn ddiweddarach daw'r cyfnod archwilio a mabwysiadu. Mae dogfennau, ffurflenni ymgynghori, a mapiau i'w gweld yn Swyddfa'r Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, ac yn holl lyfrgelloedd cyhoeddus.

Problem arall a drafodwyd ynglŷn â datblygu lleol yw'r ffordd, a phont y rheilffordd ar lôn Clarach. Bu trafod ar yr hen syniad o gael pont a ffordd o dan y rheilffordd ychydig is na Wern Deg ynghyd a chylchdro. Tebyg y daw cylchdro gyda datblygiad yr orsaf, ond stori arall fydd mynd o dan y rheilffordd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 24 Chwefror.


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# John Huw Griffiths

Er imi fynychu Eisteddfod Genedlaethol Aberystwytyth 1952, am rai dyddiau, Prifwyl Glynebwy 1958 oedd y gyntaf imi'i chael yn gyfan. Dim ond un 1963 yn Llandudno a fethais wedyn. 'Torth' oedd testun yr englyn ym 1958 ac o'r 220 fu'n cystadlu rhannodd Seimon B. Jones y beirniad y wobr rhwng y Parchedig Cadvan Jones, Blaenau Ffestiniog, a J.H.Griffiths, Ardwyn, Goginan. 'Guto' oedd ffugenw John Huw, a oedd yn 83 oed, a dyma'i englyn:

Rhin grawn yw a grynhowyd — ynddi hi
Yn nawdd iach a graswyd;
Rhodd i hulio bwrdd aelwyd
A brawf i bawb yn brif fwyd.

Gan imi weld John.Huw. yn cael ei wobrwyo cyn hynny mewn sawl eisteddfod dyma sut y canodd i'r eisteddfod:

Hoenus yw 'rôl hanes hir, - yn ei llys
Cân a llên a noddir;
Yno hed yr Awen wir
A'r heniaith a feithrinir.

Ar wahân i weld John Huw mewn steddfod fe'i gwelais fore Sul 11 Mai 1958 pan bregethwn yng nghapel Wesle Horeb, Cwmbrwyno, cyn imi fynd i Fethel, Cwmrheidol y prynhawn ac Ebeneser, Ystumtuen yr hwyr. Rwy'n ei gofio yn diolch yn gynnes imi am yr oedfa a minnau wedi traethu ar 'Chi yw halen y ddaear'. Roedd yn addolwr selog yn Horeb wedi dychwelyd o'i grwydriadau ym 1935 i fyw yn Ardwyn gyda'i chwaer, ac yn cerdded oddi yno i'r addoldy fore a hwyr beth bynnag fyddai'r tywydd. Roedd yn Gristion ecwmenaidd cyn i'r gair ddod yn gyfarwydd gan y byddai'n athro ysgol Sul gyda'r Presbyteriaid yng nghapel y Dyffryn ger ei gartre y prynhawn - athro rhagorol yn ôl chwiorydd y dosbarth. Gan ei fod yn gymydog da ei hun yn ôl pob sôn mae'n werth oedi gyda'i englyn:

**I Gymydog**

Mor hyfwyn, mawr ei ofal, - ei hanes
Ydyw gweini dyfal;
Un o wyrda ein hardal
Na ŵyr sut i wneud tro sâl.

Mewn bwthyn o'r enw Eithin-bach, Ystumtuen, y ganed John Huw, ar 23 Ionawr 1875, a brawd i'w dad oedd Llewelyn, tad y brodyr Trefor, Alun a Huw, y cenedlaetholwyr cadarn y cefais y fraint o fod yn eu cwmni hwyliog yn gyson. Wedi gadael yr ysgol yn 12 oed a llafurio am gyfnod yn un o weithiau mwyn yr ardal aeth i un o lofeydd Morgannwg cyn mudo i Awstralia. Yn ôl i Lundain ymhen rhai blynyddoedd cyn dychwelyd i Goginan. Flwyddyn ar ôl ennill yng Nglynebwy bu farw'r Parchedig Arthur Wyn Williams (un o Benmachno) gweinidog Llanfan, yn frawychus o sydyn a dychwelodd May ei briod, merch chwaer John Huw i Ardwyn at y ddau. A'r flwyddyn wedyn bu farw'r englynwr crefftus yn 85 oed. Cynhwysodd Alan Llwyd ddau o englynion John Huw yn *Y Flodeugerdd Englynion*:

**Y Pry Cop**

Hyw yw ef; â hoyw afiaith — gwea'n gylch
Ei gain gamp o rwydwaith,
A'i nod yw na edy'i waith
Heb ei orffen yn berffaith.

**Yr Englyn**

Cywrain yw, cryno'i wead, - caeth ei air,
Coeth ei wisg a'i drwsiad,
A'i fydr o a'i fyw drawiad
A sain ei glec yw swyn gwlad.

Mae englynion Wil Ifan, William Morris a T. Gwynn Jones ar yr un testun yn ymyl un bardd Goginan. Y mae'r diweddar Tudor Davies mewn cerdd i Ystumtuen sy'n cyfeirio at enwogion y fro yn sôn am yr englynwr:

John Huw Griffiths, Pant-y-ffynnon,
Addfwyn ŵr i'w fro yn gaer,
Cain englynwr ac ymgomiwr,
Daeth yn ôl 'rôl teithio dae'r.

Gresyn na byddai'r cyfaill Tudor wedi gallu casglu cynnyrch John Huw i gyfrol fel y bwriadodd. Wrth ddiolch am gynhaeaf ei awen bydd raid chwilio am ragor o'i gynnyrch.

**W J Edwards**



John Huw Griffiths gyda'i nai Huw Griffiths (Y Glo) a Gareth Huw Griffiths yn blentyn bach yn Swyddfa'r Glo, Ffordd Alexandra, Aberystwyth. Diolch i Mrs Tegwen Griffiths am y llun.

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Nofio

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yng Ngala Nofio ysgolion yr ardal. Llwyddodd nifer i ennill drwodd i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddynt.

### Chwaraeon

Aeth dau o ddisgyblion yr ysgol i lawr i gystadlu mewn gala nofio arbennig ym mhwll nofio Plas-crug. Bu Hafwen a Ioan wrthi yn nofio'u gorau yn erbyn disgyblion eraill ysgolion yr ardal. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt am eu hymdrech a llongyfarchiadau mawr i Ioan Jones a ddaeth yn gyntaf yn ei gystadleuaeth. Da iawn iddo.

### Stondin Gacennau

Cynhaliwyd stondin gacennau fisol yr ysgol ddiwedd mis Ionawr. Tro dosbarth Mr Roberts oedd hi y tro yma. Daeth criw da at ei gilydd i drefnu a rhedeg y stondin. Diolch i bawb a gyfrannodd gacennau neu fu wrthi yn prynu. Llwyddwyd i godi dros £130 mewn cyfnod byr iawn o amser. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

### Japan

Cafwyd ymweliadau gan Fumi o Japan yn ystod y mis diwethaf. Yn ystod y sesiynau cafodd y disgyblion gyfle i gael gwybodaeth am y wlad a'i thraddodiadau ynghyd â blasu bwydydd y wlad. Yn ystod yr ail sesiwn aethpwyd ati i chwarae gêmau amrywiol megis ymladd sumo ynghyd â gwneud origami a dysgu sut i ddefnyddio chopsticks. Cafwyd sesiynau diddorol iawn. Diolch i Fumi am wneud y sesiynau yn hwyl i'r disgyblion.

### Pêl-rwyd

Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn chwarae yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd, cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Cafwyd llawer o chwarae ac ymdrechion da gan aelodau'r tîm ond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rownd nesaf. Da iawn i bob un am eu hymdrech ac i Miss Cory am eu hyffroddi.

### Dewi Pws

Fel rhan o waith Darllen Miliwn o Eiriau, cafwyd cyfle i groesawu Dewi Pws i'r ysgol. Treuliodd sesiwn yn sgwrsio ac yn cynnal gweithgareddau am lyfrau gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6. Cyflwynodd y sesiynau yn ei ffurf unigryw gan ennyn a chadw diddordeb yr holl ddisgyblion.

### Biathlon

Llongyfarchiadau i Seren Jenkins a aeth i lawr i Gaerfaddon (Bath) i gystadlu yn Rownd gyn derfynol Cystadleuaeth Biathlon GB Cymru. Bu'n rhaid iddi nofio 50m yn ogystal a rhedeg 400. Da iawn hi am ei hymdrechion yn erbyn disgyblion o ysgolion enwog megis Millfield.



Ioan Jones a Hafwen Clarke a fu'n cystadlu yn y Gala nofio ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar.




Tim pel-rwyd yr ysgol a fu'n cystadlu yn nhwrnament yr Urdd.



Dewi Pws wrthi yn gweithio gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6.




Seren Jenkins a fu'n cystadlu yng Nghaerfaddon (Bath) yn ddiweddar


## CLWB CŴL
**Penrhyn-coch**

**CLWB AR ÔL YSGOL**
Ar Agor Llun-Gwener o
3.30 y.p - 5.30 y.p.
£6 y sesiwn £5 ail blentyn
Sesiynau wrth yr awr ar gael

Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

**CLWB GWYLIAU**
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.

£20 y diwrnod plentyn cyntaf
£18 y diwrnod ail plentyn

Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.

£10 plentyn cyntaf . £9 ail plentyn

www.facebook.com/pages/Clwb-Cwl-Penrhyn-coch-After-School-Club/235577369148?ref=ts

I fwcio cysylltwch â
Delyth James neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Ionawr, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Trefor Davies, yn y gadair. Roedd wyth o'r cynghorwyr eraill yn bresennol, ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Daniel Jones. Cydymdeimlwyd â'r cyn-aelod Mrs Connie Evans a'r teulu ar farwolaeth Mr Eddie Evans.

Trafodwyd y tywydd oer a rhewllyd a gafwyd, y diffyg graeanu y tu draw i Benrhyn-coch ac amharodrwydd y Cyngor Sir i ddarparu rhagor o finiau graeanu. Nododd y Cynghorydd Sir ei fod eisoes wedi codi'r materion hyn gyda'r aelod cabinet perthnasol a chyda swyddogion y Cyngor, ac addawodd wneud hynny eto.

Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod o Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig. Adroddodd fod lês y Grŵp ar yr Ysgol gan y Cyngor Sir yn dod i ben ddiwedd Mawrth; wedi hynny byddai raid talu rhent uchel am yr Ysgol neu ei phrynu. Y pris a ofynnid oedd £140,000, ac roedd y Grŵp yn bwriadu gwneud cais am grant loteri i geisio cwrdd â'r gofyn. Mynegodd y Cyngor ei gefnogaeth i'r Grŵp yn eu hymdrechion i gadw'r Ysgol ar gyfer defnydd y gymuned.

Adroddwyd fod y Clerc yn bwriadu ymddeol ddiwedd Mawrth ar ôl 37 mlynedd gyda'r Cyngor, pump fel aelod a 32 fel Clerc. Nodwyd y byddai cyfle yn nes ymlaen i ddiolch i Mrs Walker am ei gwaith diflino dros y Cyngor. Cytunwyd i hysbysebu'r swydd yn syth. Roedd angen diogelu llyfrau cofnodion y Cyngor 1945-2008, a chytunwyd i'w cynnig i Archifdy Ceredigion. Roedd y cofnodion blaenorol, 1894-1945, yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond gan mai polisi'r sefydliad hwnnw bellach oedd peidio â bod yn gyfrifol am gofnodion o'r fath cytunwyd y dylid symud y rheini hefyd i Archifdy Ceredigion.

Adroddodd y Clerc fod yr archwiliad ariannol ar gyfer 2009/10 bellach wedi'i gwblhau, ac nid oedd yr archwilwyr wedi codi unrhyw fater. Cyflwynwyd y dogfennau i'r Cyngor.

Ystyriwyd ceisiadau ar gyfer grantiau cymunedol. Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn: Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig £250; Grŵp Dros 60 Trefeurig £150; Cymdeithas Cae Chwarae Pen-bont £250; Cylch Meithrin Trefeurig £150; Clwb Cŵl Penrhyn-coch £250; Cymdeithas Cae Chwarae Penrhyn-coch (PATRASA) £250; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch £400; Neuadd y Penrhyn £750; Grŵp Ymddeolwyr Penrhyn-coch £150; Brownies Penrhyn-coch £100; Cartref Tregerddan £250; Y Tincer £250; Ambiwlans Awyr Cymru £300; cyfanswm o £3,500.

Adroddwyd y rhagwelid y byddai tua £5,700 yng nghoffrau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef £2,500 ar gyfer cronfa adeilad y Cylch Meithrin, £1,500 o arian wrth gefn a thua £1,700 o arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn (yn bennaf ad-daliadau TAW ac ad-daliad yswiriant). Penderfynwyd y dylid gosod archebiant ('precept') o £13,000 ar gyfer 2011/12, sef £8,000 ar gyfer costau rhedeg cyffredinol, £1,500 ar gyfer costau cyfalaf a £3,500 ar gyfer y gronfa grantiau cymunedol. Barnwyd y byddai hynny ynghyd â'r arian a drosglwyddid o 2010/11 yn ddigonol ar gyfer anghenion y Cyngor.

Roedd y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd ac roedd angen sylwadau arno erbyn canol Chwefror. Gan ei fod yn cynnig ychwaneg o ddatblygu yn rhan uchaf y pentref, a bod y Cyngor wedi gwrthwynebu datblygiad i'r cyfeiriad hwnnw sawl gwaith o'r blaen, am resymau hysbys, penderfynwyd ysgrifennu ymateb i'r perwyl hwnnw.

Penderfyniad cynllunio: estyniad i Gwarcaeau, Salem — caniatawyd. Cais cynllunio: estyniad i Blaencastell, Penrhyn-coch — dim gwrthwynebiad. Cynhelir y cyfarfod nesaf 22 Chwefror yn Neuadd y Penrhyn. Ceir y cofnodion llawn ar www.trefeurig.org .



# Brysgaga

Bu un o'n darllenwyr mewn cysylltiad yn holi 'Beth yw ystyr y gair sy'n enw ar fferm yn Bow Street - Brysgaga?

Saif y fferm ar gyrion y pentref wrth adael ar hyd y Lon Groes ac mae yn enwog am ei gwartheg duon. Gweler http://www.brysgagawelshblack.co.uk/

Dyma eglurhad a gyhoeddwyd yn rhifyn 10 o'r *Tincer* (Meh/Gorff 1978 t[11])

Cwestiwn anodd ... ac un nad oes ateb pendant iddo. Dyma gynnig petrus. Am yr elfen gyntaf Brysg — gellir awgrymu mai'r un yw hwn a'r gair 'prysg' sef 'llwyn o goed', ond i'r 'p' ar y dechrau ymdebygu i 'b' ar lafar. Mae'n werth sylwi mai 'Prysgaga' yw'r ffurf gan Lewis Morris (gŵr cyfarwydd â'r ardaloedd hyn) yn ei *Celtic Remains*, t. 366.

Ac o ran diddordeb ceir enw arall yn cynnwys yr elfen 'prysg' heb fod ymhell iawn, sef Llwyn-prysg, ger Salem, Coedgruffydd a Phen-rhiw. Y mae'r elfen 'gaga' yn fwy dieithr ond gallai fod yn enw person, er y byddai'n enw anghyffredin hefyd. Yn hanes bywyd Padarn, y sant a roddodd ei enw i Lanbadarn-fawr, a ysgrifennwyd eglwys gyntefig yng Nghlarach, a'r enw a roddir iddi yno yw Crucis Agam. Meddai'r ysgolhaig mawr hwnnw Egerton Phillimore, "Some have thought that part of this name is preserved in the equally curious modern place-name Brysgaga, a little NW of Bow Street". Ond sut aeth 'agam' yn 'aga'? Mewn Hen Gymraeg byddai m weithiau yn golygu f, ac felly er mai agam a ysgrifennid, agaf a ddywedid, a'r cam nesaf fyddai colli'r f o ddiwedd y gair wrth siarad, a chael aga. Yn union fel y byddwn yn dweud 'gaea' wrth sgwrsio â'n gilydd, ac nid 'gaeaf'. Felly dyna Prysg Aga(f), sef "coed a oedd yn eiddo, neu'n drigfan i rywun o'r enw Aga(f)", a hwnnw wrth ei ynganu gan genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'r ardalwyr wedi troi'n 'Brysgaga'.


MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**
**Cynorthwy-ydd Cylch**
**£5.93 yr awr**
**Llun, Mawrth a Mercher 9.00 y.b. - 12.00 y.p. yn ystod y tymor ysgol yn unig**

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig, bywiog a dibynadwy i weithio gyda'r arweinydd yn ein Cylch Meithrin, sydd wedi ei leoli yn Ysgol Rhydypennau, Bow Street.

Byddwch yn mwynhau gweithio gyda plant bychain (2 ½ - 3 oed), ac yn hyderus i gyfathrebu â nhw yn Gymraeg. Byddai cymhwyster NVQ Lefel 2 neu 3 yn ddymunol, ond mae hyfforddiant ar gael.

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â Cêt Morgan, Cadeirydd y Cylch ar 07966 510195.

Dyddiad cau: 4ydd Mawrth 2011

*This is an advertisement for the post of Cylch Assistant for which the ability to speak Welsh is essential.*

*Addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg*

## COLOFNYDD Y MIS

### GWION ELIS-WILLIAMS



Os gwrandewch yn astud wrth sefyll ar y traeth yma yn y Borth, fe sylweddolwch fod caniad clychau'r ddinas goll wedi eu distewi gan fwmian y generaduron, wrth i'r contractwyr weithio rownd y rîl i gwblhau cymal cyntaf y brosiect amddiffyn arfordirol. Er fy mod i'n newydd ddyfodiad i'r ardal, mae hi'n bur amlwg y bod angen adnewyddu'r hen systemau amddiffyn, sy'n tarddu o'r saithdegau. Darllenais un adroddiad yn ddiweddar a oedd yn honni y gall y Borth gyfan gael eu llyncu gan y tonnau o fewn ugain mlynedd, os na fuasai'r hen amddiffyniadau'n cael eu hadnewyddu. Dwi hefyd wedi clywed gan ambell un o drigolion y pentref am lifogydd yn y gorffennol, pan oedd amddiffyniad llifogydd yn gyfystyr ag agor y drws ffrynt er mwyn gadael i'r dŵr lifo allan. Rwyf hefyd yn reit sicir fod neb o'r pentref wedi bod yn adeiladu arch ar gyfer ein cymdogion yn yr anifeilfa, felly y mae hi'n synnwyr cyffredin fod y gwaith yma'n mynd yn ei flaen.

Fel rhan o'r cynlluniau amddiffyn, mae rîff aml-bwrpas yn cael ei hadeiladu gyda'r bwriad o ledaenu'r traeth ar ochr ddeheuol y pentref. Yn ôl ymgynghorwyr amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion, fe fydd y rîff yn fuddiol i fywyd môr yr ardal, ac mae sôn hefyd y bydd y tonnau uwch a fydd yn cael eu creu gan y rîff yn denu rhagor o syrffars i'r traeth, gan droi'r Borth yn 'fecca syrffio' megis Waikiki, Biarritz a Rhosneigr. Er fod y diwydiant twristiaeth yn gymharol bwysig i'r Borth yn ystod misoedd yr haf, dwi'n amau na fydd y pentref yn medru ymdopi â chynnydd rhy fawr mewn niferoedd. Mae rhywun yn fwy tebygol o ddod ar draws tsimpansi'n siglo o ganghenau'r goedwig suddedig na lle i barcio ar y stryd fawr yng nghanol Gorffennaf. Gyda'r holl doriadau mewn gwariant cyhoeddus, fe fydd hefyd yn ddiddorol gweld beth fydd dyfodol cyfleusterau megis y toiledau cyhoeddus a'r ganolfan wybodaeth - yn enwedig gan nad yw'r cyngor dan unrhyw rwymedigaeth i'w darparu. Fe fydd angen buddsoddiad yn y pentref hefyd felly, os y bydd y rîff yn llwyddiannus yn ei hamcan o wellhau'r amodau syrffio.

Yn bwysicach efallai, fe fydd y Borth wedi ei hamddiffyn rhag digwyddiad 'unwaith mewn canrif' pan fydd yr amddiffynfeydd wedi eu cwblau. Felly Noa, rho dy dŵls i lawr a tyrd am beint i'r Friendship — rownd i bawb, Seithenyn sy'n prynu!

**Un o Fethesda yw Gwion Elis-Williams sydd bellach yn byw yn y Borth efo ei gariad Nia (a Jac y ci!) ac yn astudio Cadwraeth Cefn Gwlad yn y Brifysgol, lle mae yng nghanol ei flwyddyn gyntaf fel myfyriwr aeddfed. Gellir ei glywed fel cyfranwr achlysurol i Radio Cymru.**

Y mis nesaf: Rhodri Darcy

# Y TINCER

ytincer@googlemail.com

## Noson lawen





Bydd Côr Ger-y-lli a Linda Griffiths a'r merched - Lisa a Gwenno i'w gweld ar y rhaglen Noson Lawen a ddarlledir nos Sadwrn 12 Mawrth am 8.20. Recordiwyd y rhaglen ym Mhontrhydfendigaid cyn y Nadolig ac os craffwch yn fanwl fe welwch rai o ddalgylch y Tincer yn y gynulleidfa! Mae'n debyg y bydd ail-ddarllediad nos Wener 25 am 23.05. Artisitiad eraill - Gwawr Edwards, Ifan Gruffydd a Gildas.


BYW YN YR ARDD

Bydd y gyfres Byw yn yr Ardd yn dychwelyd ar S4C yn gynnar yn y Gwanwyn ac rydym yn chwilio yng Nghymru a thu hwnt am:

- Arddwyr brwd a chymeriadau o bob oed sy'n hoffi potsian a mentro yn yr ardd.
- Straeon neu brosiectau garddwriaethol ac eco-gyfeillgar.
- Erddi bach, mawr neu anarferol.
- Bobl sy'n barod i rannu eu tips garddio.
- Unrhyw un mewn gwirionedd sy'n hoffi byw yn yr ardd!

Cysylltwch gyda thîm Byw yn yr Ardd ar 01248 671167 neu trwy'r e-bost post@bywynyrardd.net

S4C

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Ymweliadau

Mae'r prysurdeb yn yr ysgol yn parhau gyda nifer o ymweliadau, digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Ar ddechrau'r tymor, fe ddaeth ymwelydd enwog iawn i'n plith; neb llai na Dewi Pws-Bardd Plant Cymru eleni! Yn unol â Mrs Elaine Thomas, Ymgyngorydd Llythrennedd y Sir bu'r ddau yn cyflwyno gwybodaeth i'r plant ar lyfrgelloedd yr ardal. Trafodwyd eu pwrpas ac yn benodol, sut i elwa ohonynt. Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd y plant gyfle i gwblhau tasgau heriol drwy ddarllen a defnyddio llyfrau yn effeithiol. Ysbrydolodd yr ymweliad Rhys Tanat i gyfansoddi cerdd i Dewi Pws. Dyma hi:

## Dewi Pws

Mae Dewi Pws yn ddoniol iawn;
Ac mae'n hoffi brechdan wŷ.
A phan mae pobl yn ei weld,
'Sneb yn holi "Pwy?"

**Rhys Tanat Bl 3**

## Gwyddoniaeth

Bu blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r Brifysgol yn Aberystwyth er mwyn derbyn darlith ar wyddoniath gan y Cemegydd enwog Dr A.J.S Williams, MBE. Pwrpas y ddarlith oedd sicrhau diddordeb y disgyblion yn y pwnc a rhoi cyfle i'r plant ymuno mewn arbrofion ymarferol ar egni a grym. Cafwyd bore difyr iawn.

## Diwrnod ar gyfer newid

Cynhaliwyd 'Diwrnod UNICEF ar gyfer Newid' ar y 4ydd o Chwefror. Cafodd y plant wisgo dillad lliwgar ar y dydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r achlysur a chodwyd £136.50 tuag at Apêl Nyrs Calon Ceredigion.

## Apêl 'Back Pack'

Mae'r Clwb Rotary yn trefnu a chasglu nwyddau sy'n addas ar gyfer 'Back Packs'. Maent yn bwriadu danfon y nwyddau i wledydd ble mae eu gwir angen e.e. Uganda, Sudan a Romania. Mae blwch yng nghyntedd yr ysgol bellach ac yn cael ei lenwi'n gyflym iawn.

## Y BBC yn galw

Efallai i'r rhai craff ohonoch glywed ar y radio neu digwydd gweld ar y rhaglen deledu 'Ffeil' yn ddiweddar rhai o blant yr ysgol yn siarad am wylio adar. Yn unol â wythnos gwylio adar RSPB, fe ddaeth gohebydd newydd Canolbarth Cymru, Craig Duggan, i'r ysgol i sgwrsio, i drafod ac i ffilmio'r plant.

## Clwb Cant

Mae'r Gymdeithas Rhieni Athrawon yn y broses o wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â chlwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian gwobrau bob blwyddyn fydd pum cant punt. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at y CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:

1af- £25 2il-£15 3ydd-£10

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820 656

## Gwasanaethau

Mae tri o weinidogion yr ardal wedi cyfrannu i'n gwasanaethau boreol y tymor hwn. Hoffa'r ysgol ddiolch 'r Parchedigion Richard Lewis, Wyn Morris ac Andrew Lenny am eu storïau difyr a'u geiriau doeth.

## Chwaraeon

Yn ddiweddar bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd, cylch Aberystwyth yn y ganolfan hamdden ym Mhlas-crug. Enillodd y merched sawl gêm ond collodd y tîm yn y rownd derfynol. Perfformiad ardderchog.

Cynhaliwyd gala nofio cylch Aberystwyth i'r ysgolion mawr ar y 27ain o Ionawr. Oherwydd perfformiadau gwych nifer helaeth o blant blwyddyn 3 i flwyddyn 6, aeth 20 ohonynt ymlaen i'r rownd derfynol ar y 3ydd o Chwefror.

## Hoci

Dyma ganlyniadau diweddar y ddau dîm hoci.
Rhydypennau A — 3; Ysgol Gymraeg A-1.
Rhydypennau A — 5; Plas-crug A — 1.
Rhydypennau B — 1; Llanilar B — 1.
Rhydypennau B — 4; Llwyn yr Eos B — 0.

## Swydd

Mae yna ddwy swydd yn mynd yn yr ysgol:- Cynorthwy-ydd Dysgu a Gweithiwr Cynnal Dysgu Y Cyfnod Sylfaen.
Os am fwy o wybodaeth ffoniwch (01970) 828 608.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Craig Duggan, gohebydd BBC Canolbarth Cymru gyda rhai o blant blwyddyn 2



Dewi Pws ac Elaine Thomas yn difyrru blwyddyn 5 a 6.



Plant yr ysgol yn mwynhau bore o wyddoniaeth



Tia Cooke, Alys a Rhodri Jones yn ychwanegu nwyddau i'r blwch 'Back Packs'.

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

# YSGOL PEN-LLWYN

### Parti Gweneira

Ar ddydd Gwener, Ionawr 21ain cynhaliwyd Parti Ffarwelio ar gyfer Mrs Gweneira Williams a ymddeolodd ar ddiwedd Rhagfyr. Bu'n dysgu dosbarth 2 yn Ysgol Pen-llwyn am rai blynyddoedd ac fe welwn ei cholled yn fawr iawn.

Bu'r disgyblion yn canu dwy gân i Mrs Williams, un wedi ei hysgrifennu yn arbennig iddi hi. Ar ôl i'r côr ganu fe ddiolchodd Steffan Lewis a Keiran Evans dros y plant i gyd, Mrs Christine Charlton dros y staff a Mr Elfed Lewis dros y rhieni a'r Llywodraethwyr.

Derbyniodd yr anrhegion a'r cerdyn oddi wrth Jo Jones, Pepe Sepulveda, Alison Griffiths a Manon Davies ac yna basgedaid o flodau hyfryd gan y Llywodraethwyr. Roedd Mrs Gweneira Williams yn ddiolchgar iawn am y rhoddion a'r geiriau caredig ac fe ddymunodd yn dda i bawb.

### Gweithdy gyda'r Heddlu

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Manon Davies, fel cynrychiolydd o'r ysgol, yn mynd i'r orsaf heddlu i ddysgu am yr holl waith mae'r heddlu yn ei wneud. Yna, ar ddydd Mercher, Ionawr 19eg fe ddaeth Dave a Glenda yma i helpu Manon i gynnal gweithdy 'cymryd print bysedd' a rhai côd cuddiedig ar offer fel ffonau symudol. Roedd hi'n sesiwn ddiddorol iawn.

### Ennill 'Cyclepods'

Ar ddydd Mawrth, Ionawr 25ain fe osodwyd 'Cyclepods' ar dir yr ysgol er mwyn storio beiciau. Enillodd Mrs Christine Charlton y 'Cyclepods' i'r ysgol mewn cystadleuaeth yng nghylchgrawn Headteacher yn ystod mis Rhagfyr.
Penderfynodd y Cyngor ysgol i ddewis lliwiau'r ysgol ar gyfer y pods ac i osod y 'pods' ger y parc chwarae.

### Diwrnod 'Cadw'n Heini

Fe gawson sesiynau 'Cadw'n Heini' ar fore dydd Gwener, Ionawr 28ain gyda Phill ac Ellie. Bu'r plant yn dysgu sgiliau rygbi, pêl-rwyd a.y.y.b. Fe fu'r plant yn rhedeg a neidio hefyd am ryw amser penodedig. Roedd pawb yn teimlo'n heini iawn erbyn diwedd y bore.

### Gala Nofio

Ar fore dydd Llun cynhaliwyd Gala Nofio yr ysgolion bach ac fe fu amryw o'r disgyblion yn cystadlu. Fe fydd Iestyn Watson yn mynd ymlaen i gystadlu mewn râs rhydd Bl.5 a râs 50m Bl.5, Nuala Jones yn y râs rhydd Bl.4 a Jo Jones mewn râs broga Bl.6 yn y Gala Terfynol. Pob lwc i'r tri ohonynt!

### Big Schools' Birdwatch

Mae pawb yn yr ysgol wedi bod yn frwdfrydig iawn dros y pythefnos diwethaf yn ddathlu pen blwydd 'Big Schools' Birdwatch' yn ddeg oed a'r RSPB Cymru yn 100 mlwydd oed eleni. I'n cychwyn ni ar ein gwaith dathlu daeth Monica a Jenny, swyddogion addysg o Ynys-hir i gynnal prynhawn llawn hwyl gyda nifer o weithgareddau yn y dosbarth a thu allan. Roedd hi'n brynhawn braf ac yn ffodus iawn ymddangosodd nifer fawr o adar ac fe fu hyn yn help mawr i ni i ddysgu amdanynt. Wedyn, aeth dosbarth 1 ati i greu cacennau pen blwydd i'r adar i gloi'r dathliadau ac fel diolch i'r adar am ein helpu ni gyda'n gwaith diddorol a phwysig iawn.

### Gwobr 'Sgolion-Eco

Llongyfarchiadau i'r Pwyllgor Eco am fod mor weithgar yn ystod tymor diwethaf. Mae newidiadau mawr yn digwydd yn Ysgol Pen-llwyn ac o ganlyniad i hyn mae'r ysgol wedi cyflawni gofynion ac ennill y wobr arian. Y faner werdd yw'r targed nesaf!



Dave a Glenda gda'r plant ar ol y gweithdy print bysedd.



Dave a Glenda gyda'r plant ar ôl y gweithdy print bysedd.



Disgyblion yr ysgol yn dathlu ennill cystadleuaeth Cyclepods



Mrs Williams yn derbyn ei hanrhegion ffarwelio.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# TASG Y TINCER


Ela Glain Ebenezer Thomas

? Mae'n amlwg bod testun llun Tasg Ionawr wedi plesio sawl un ohonoch chi. Daeth 21 llun Peppa trwy'r drws yn ystod y mis, ac roedd pob un ohonyn nhw'n arbennig o dda! Dyma pwy fu wrthi'n brysur efo'r pensiliau a'r paent:

Haf Lewis Evans, Capel Bangor; Becca Fflur, Tal-y-bont; Miriam Gregory, Aberystwyth; Elen Haf Bailey, Y Borth; Elen Morgan, Pen-y-garn, Bow Street; Sion Davies, Abermagwr; Elen Gwen Ifans, Bow Street; Garan ac Ela Glain Thomas, Caerdydd; Jessica Mai Evans, Bow Street; Rhodri Jones, Bont-goch; Elin Pierce Williams, Bow Street; Alaw Lewis, Llangorwen; Alison Keegan, Capel Bangor; Cadi Bowen Jones, Penrhyn-coch; Craig Edwards, Capel Bangor; Mari ac Elin Morgan, Llandre; Gruffudd Iwan, Morgan Iwan a Gwion Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth, Caerdydd.

Wel, roedd yn anodd iawn dewis enillydd gan fod pob un o'ch lluniau'n hyfryd, ond ar ôl pendroni, a chrafu pen, ti Ela Glain sy'n ennill y tro hwn. Roeddet ti wedi rhoi lliw melyn hyfryd ar olwynion beic Peppa, a hoffais y fasged las a'r sêt goch! Da iawn ti, ond da iawn i'r gweddill ohonoch chi hefyd — daliwch ati!

Rwy'n siwr bod pob un ohonoch yn gwybod ein bod yn dathlu rhywbeth pwysig iawn ar 1 Mawrth, sef dydd Gŵyl Ddewi, wrth gwrs. Ydech chi'n gwybod am rywbeth arall sy'n digwydd yn fuan wedyn, ar 3 Mawrth? Diwrnod y Llyfr yw'r diwrnod hwnnw. Pa fath o lyfrau ydech chi'n mwynhau eu darllen? Pwy yw eich hoff gymeriad? Falle eich bod yn hoffi stori antur sy'n llawn cyffro, neu'n hoffi llyfrau lluniau, llyfrau posau, neu beth am straeon tylwyth teg a chewri? Falle bod rhywun diddorol yn ymweld â'ch ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr — awdur neu fardd enwog? Neu falle y cewch chi gyfle i wisgo fel un o'ch hoff gymeriadau ar y diwrnod hwnnw? Mwynhewch!

Y mis hwn, beth am liwio llun y bachgen wrthi'n darllen? Rhowch deitl ar y llyfr, neu lun ar y clawr, ac anfonwch eich gwaith ata'i erbyn dydd Gŵyl Ddewi (Mawrth 1af). i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
Rhif 336 | CHWEFROR 2011